- Copïo diffiniadau o fewn y rheoliadau eu hunain, yn lle cyfeirio at ddiffiniadau sydd o fewn Cyfarwyddebau'r UE, neu'n nodi y dylai cyfeiriadau fod at 'fersiynau' penodol o ddarnau o ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd;
- Diweddarau cyfeiriadau at gyfresi eraill o ddeddfwriaeth a gaiff eu newid yn dilyn ymadawiad â'r UE neu lle mae angen diweddariad beth bynnag oherwydd bod y cyfeiriad at ddarn o ddeddfwriaeth sydd heb fod yn gyfredol;
- Newid cyfeiriadau at 'lefel Aelod-wladwriaeth' i 'unrhyw gyfraith o unrhyw ran o'r DU'; a



- Addasu'r ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu 'Aelod-wladwriaethau eraill yr UE' ynghylch effeithiau amgylcheddol ar draws ffiniau, er mwyn adlewyrchu statws newydd Cymru y tu allan i'r UE.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A

Rhiant-Ddeddf: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Bodlonwyd Gofynion y Sifft: Ni Nodwyd

pN(5)028 – Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i'r offerynnau domestig a ganlyn:

- a. Rheoliadau Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr Pysgod a Dynodi Safleoedd Arwerthu Pysgod (Cymru) 2006;
- b. Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011; a
- c. Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016.

Mae'r gwelliannau hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn weithredadwy ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, drwy ymdrin â diffygion mewn deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o ymadawiad y DU.

Gosodwyd y Rheoliadau hyn at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018, yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A

Rhiant-Ddeddf: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Bodlonwyd Gofynion y Sifft: Ni Nodwyd



pN(5)029 – Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 a Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017. Maent yn cywiro diffygion mewn deddfwriaeth ddomestig ar farchnata hadau a phlanhigion ffrwythau a deunyddiau lluosogi sy'n deillio o ymadawriad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, er mwyn sicrhau bydd y drefn hon yn parhau i fod yn weithredol ar ôl ymadael â'r UE.

Gosodwyd y Rheoliadau hyn at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018, yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A

Rhiant–Ddeddf: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Bodlonwyd Gofynion y Sifft: Ni Nodwyd



Eitem 4.1

pN(5)023 – Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio pedwar darn o ddeddfwriaeth Cymru yn ymwneud â gwastraff, sy'n gweithredu Cyfarwyddebau Ewropeaidd amrywiol sy'n ymwneud â rheoli gwastraff i sicrhau bod y gyfundrefn wastraff yn gallu parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU adael yr UE.

Nid yw'r Rheoliadau'n gwneud unrhyw newidiadau nac yn dileu unrhyw safonau amgylcheddol. Mae'r addasiadau yn angenrheidiol i destun y ddeddfwriaeth ddomestig, gan ddileu neu ddiwygio cyfeiriadau at Gyfarwyddebau'r UE a thelerau cysylltiedig yr UE, er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth gwastraff yn parhau i weithredu fel y'i bwriedir ar ôl ymadael â'r UE. Nid yw'r newidiadau yn newid effaith unrhyw ddiffiniadau presennol ond fe'u gwneir er mwyn i'r diffiniadau a gynhwysir yn y Cyfarwyddebau, na fyddant yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl y diwrnod gadael, weithio'n effeithiol.

Cafodd y rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A

Argymhelliad y Pwyllgor ynghylch y weithdrefn briodol

Rydym wedi trafod y meini prawf a nodir yn Rheol Sefydlog 21.3C.

[Rydym yn argymhell mai gweithdrefn y penderfyniad negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn. Er bod y Rheoliadau'n gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, a fyddai fel arfer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol, nid yw'r newidiadau a wneir yn newid sylwedd y safonau amgylcheddol a dim ond yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r gyfraith sy'n ofynnol er mwyn gweithio'n effeithiol ar ôl y diwrnod gadael.]

NEU

[Am y rheswm canlynol, rydym yn argymhell mai gweithdrefn y penderfyniad cadarnhaol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn:

1. Diwygio deddfwriaeth sylfaenol

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol – Mesur Gwastraff (Cymru) 2010. Er y gellid ystyried y diwygiadau hyn fel rhai 'technegol a mân', maent, serch hynny, yn delio â chyfeiriadau at ddiffiniadau cyfreithiol pwysig. Felly, mae'n briodol i'r newidiadau hyn i ddeddfwriaeth sylfaenol fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol.

Ymateb y Llywodraeth

[Os nad oes argymhelliad i ddyrchafu, mewnosoder y testun canlynol yma: Nid oes angen esboniad gan Lywodraeth Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.9B.]

[Os oes argymhelliad i ddyrchafu, mewnosoder y testun canlynol: Os nad yw Llywodraeth Cymru yn cytuno ag argymhelliad y Pwyllgor o ran y weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn, rhaid i



Lywodraeth Cymru egluro pam ei bod yn anghytuno ag argymhelliad y Pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 27.9B.]

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

12 Chwefror 2019



2019 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

GWASTRAFF, CYMRU

**Rheoliadau Gwastraff (Cymru)
(Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael
â'r UE) 2019**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn (ac eithrio Rhan 2) wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau ym mharagraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p.16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill yng nghyfraith UE a ddargedwir sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth ym maes gwastraff. Mae Rhan 3 yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol ac mae Rhan 4 yn diwygio is-ddeddfwriaeth.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn wedi ei gwneud drwy arfer y pwerau yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68), ac yn diweddar cyfeiriadau at Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff (OJ Rhif L 312, 22.11.2008, t 3) a Chyfarwyddeb 1999/31/EC ar dirlenwi gwastraff (OJ Rhif L 182, 16.07.1999, t 1).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal Aseiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

2019 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

GWASTRAFF, CYMRU

**Rheoliadau Gwastraff (Cymru)
(Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael
â'r UE) 2019**

Gofynion sifftio wedi eu bodloni ***

Gwnaed ***

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* ***

Yn dod i rym ***

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan—

- (a) mewn perthynas â Rhan 1, y pwerau a grybwyllir ym mharagraffau (b) ac (c);
- (b) mewn perthynas â Rhan 2, adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1);
- (c) mewn perthynas â gweddill y Rheoliadau, paragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(2).

(1) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51), adran 27(1)(a) a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), yr Atodlen, Rhan 1. Mae wedi ei diddymu yn rhagolygol gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), adran 1 o'r diwrnod ymadael (gweler adran 20 o'r Ddeddf honno).

(2) 2018 p.16.

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi (1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 o ran—

- (a) mesurau sy'n ymwneud ag atal, lleihau a dileu llygredd a achosir gan wastraff a rheoli pecynnu a gwastraff pecynnu(2);
- (b) atal, lleihau a rheoli gwastraff(3).

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (yn ymwneud â'r weithdrefn graffu briodol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

RHAN 1

Rhagarweiniol

Enwi a chychwyn

2.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Deuant i rym fel a ganlyn—

- (a) o ran y Rhan hon a Rhan 2, 21 diwrnod ar ôl y diwrnod y maent wedi eu gwneud;
- (b) o ran y gweddill, ar y diwrnod ymadael.

RHAN 2

Diwygio cyfeiriadau sydd wedi dyddio

Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

3.—(1) Mae Mesur Gwastraff (Cymru) 2010(4) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 9(3), ar y diwedd mewnosoder “, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2011/97/EU(5)”.

-
- (1) Yn rhinwedd adran 59(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 o ran unrhyw fater, neu at unrhyw ddiben, os ydynt wedi eu dynodi o ran y mater hwnnw neu at y diben hwnnw.
 - (2) O.S. 2005/850, y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Yn rhinwedd paragraff 28(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae O.S. 2005/850 yn cael effaith fe pe bai wedi ei wneud o dan adran 59(1) o'r Ddeddf honno.
 - (3) O.S.2010/1552.
 - (4) 2010 mccc 8, y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
 - (5) OJ Rhif L 328, 10.12.2011, t 49.

(3) Yn adran 17(2), ar y diwedd mewnosoder “, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EU) 2017/997(1)”.

Rheoliadau’r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004

4.—(1) Mae Rheoliadau’r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o “cyfleuster gwastraff” (“*waste facility*”) yn lle “fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn (EU) 2015/1127” rhodder “fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EU) 2017/997”.

(3) Yn rheoliad 7(10), ar y diwedd mewnosoder “fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor 2011/97/EU”.

Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005

5.—(1) Mae Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 47(5B), ar ôl “gwastraff,” mewnosoder “fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2011/97/EU”.

(3) Yn rheoliad 48(6B), ar ôl “gwastraff,” mewnosoder “fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2011/97/EU”.

Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011

6. Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011(4) yn y diffiniad o “y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff” (“*the Waste Framework Directive*”) yn lle “fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor (EU) 2015/1127” rhodder “fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EU) 2017/997”.

-
- (1) OJ Rhif L 150, 14.6.2017, t 1.
- (2) O.S. 2004/1490 (Cy. 155), fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2011/971 (Cy. 141); ceir offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.
- (3) O.S. 2005/1806 (Cy. 138), fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2011/971 (Cy. 141) ac O.S. 2018/721 (Cy. 140); ceir offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.
- (4) O.S. 2011/1014 (Cy. 152), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/691 (Cy. 189); ceir offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

RHAN 3

Diwygio deddfwriaeth sylfaenol

Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

7.—(1) Mae Mesur Gwastraff (Cymru) 2010(1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 9(3) (fel y'i diwygir gan reoliad 3(2)), ar y diwedd mewnosoder—

“, a'i darllen fel pe bai—

(a) yn Erthygl 2—

(i) y canlynol wedi ei roi yn lle pwynt (a)—

“(a) ‘waste’ has the meaning given by Article 3(1) of the Waste Framework Directive, as read with Articles 5 and 6 of that Directive;”;

(ii) y canlynol wedi ei roi yn lle pwynt (c)—

“(c) ‘hazardous waste’ has the meaning given in Article 3(2) of the Waste Framework Directive.”;

(b) yn Erthygl 3(2), “Without prejudice to existing Community legislation,” wedi ei hepgor.”.

(3) Yn adran 9A(3)—

(a) yn y diffiniad o “peiriant llosgi gwastraff” (“*waste incineration plant*”), yn lle “o'r Gyfarwyddeb honno” rhodder “o'r Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol”;

(b) yn y diffiniad o “peiriant cydlosgi gwastraff” (“*waste co-incineration plant*”) yn lle “o Gyfarwyddeb 2010/75/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ar allyriadau diwydiannol (atal a rheoli llygredd integredig) (Ail-lunio)” rhodder “o'r Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol”;

(c) ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

“(4) Yn yr adran hon, ystyr “Cyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol” yw Cyfarwyddeb 2010/75/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ar allyriadau diwydiannol(2), gan ei darllen fel pe bai yn Erthygl 3—

(1) 2010 mccc 8. Mewnosodwyd adran 9A gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, adran 67.

(2) OJ Rhif L 334, 17.12.2010, t 17, fel y'i cywirwyd gan gorigendwm (OJ Rhif L 158, 19.6.2012, t 25).

(a) ym mhwynt (37), “the Waste Framework Directive, as read with Articles 5 and 6 of that Directive” wedi ei roi yn lle “Directive 2008/98/EC of the European Parliament and of the Council of 19 November 2008 on waste”;

(b) ym mhwynt (38), “the Waste Framework Directive” wedi ei roi yn lle “Directive 2008/98/EC”.

(5) Wrth ddarllen y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol yn unol ag is-adran (4), mae i gyfeiriadau yn y Gyfarwyddeb honno at y “Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff” (fel y’u mewnosodir gan is-adran (4)) yr ystyr a roddir gan adran 17(2) o’r mesur hwn.”.

(4) Yn adran 17—

(a) yn is-adran (2) (fel y’i diwygir gan reoliad 3(3)), ar y diwedd mewnosoder “, a chan ei ddarllen yn unol ag is-adrannau (3) i (8)”;

(b) ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

“(3) Mae cyfeiriad at un neu fwy o Aelod-wladwriaethau mewn darpariaeth sy’n gosod rhwymedigaeth ar Aelod-wladwriaeth neu Aelod-wladwriaethau neu sy’n rhoi disgrisiwn i Aelod-wladwriaeth neu Aelod-wladwriaethau i’w ddarllen fel cyfeiriad at Weinidogion Cymru, Corff Adnoddau Naturiol Cymru neu awdurdod lleol a oedd, yn union cyn y diwrnod ymadael, yn gyfrifol am gydymffurfiaeth y Deyrnas Unedig â’r rhwymedigaeth honno neu’n cael arfer y disgrisiwn hwnnw o ran Cymru.

(4) Mae Erthygl 2 i’w darllen fe pe bai—

(a) ym mharagraff 2—

(i) yn y geiriau o flaen pwynt (a), “retained EU law” wedi ei roi yn lle “other Community legislation”;

(ii) ym mhwyntiau (b) a (c), “Regulation (EC) No 1069/2009” wedi ei roi yn lle “Regulation (EC) No 1774/2002”;

(iii) ym mhwynt (d), “the Mining Waste Directive (gweler adran 17A)” wedi ei roi yn lle’r geiriau o “Directive 2006/21/EC” hyd at y diwedd;

(b) ym mharagraff 3, y geiriau o “Without prejudice” hyd at “Community legislation,” wedi eu hepgor;

(c) paragraff 4 wedi ei hepgor.

(5) Mae Erthygl 5 i’w darllen fel pe bai paragraff 2 wedi ei hepgor.

(6) Mae Erthygl 6 i'w darllen fel pe bai—

- (a) paragraffau 1 i 3 wedi eu hepgor;
- (b) ym mharagraff 4—
 - (i) yn y frawddeg gyntaf, “Except where waste ceases to be waste in accordance with Council Regulation (EU) No 333/2011, Commission Regulation (EU) No 1179/2012 or Commission Regulation (EU) No 715/2013” wedi ei roi yn lle'r geiriau o “Where criteria” hyd at “paragraphs 1 and 2”;
 - (ii) yr ail frawddeg wedi ei hepgor.

(7) Mae Erthygl 7 i'w darllen fel pe bai—

- (a) ym mharagraff 1—
 - (i) y frawddeg gyntaf a'r ail frawddeg wedi eu hepgor;
 - (ii) yn y drydedd frawddeg, “shall, subject to paragraph 1A, be binding” wedi ei roi yn lle “shall be binding”;
- (b) ar ôl paragraff 1, mewnosoder—

“1A. Paragraph 1 is subject to—

- (a) a determination by the Welsh Ministers under regulation 8(1) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005(1) that a specific batch of waste is to be treated as hazardous waste;
- (b) a decision made by the Welsh Ministers under regulation 9(1) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005(2) that a specific batch of waste is to be treated as non-hazardous waste;
- (c) the treating of a specific batch of waste as hazardous or, as the case may be, non-hazardous, in accordance with regulations 8(2) or 9(2) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005(3);
- (d) regulations (if any) made by the Welsh Ministers under section 62A(2) of the Environmental Protection Act 1990 (lists of

(1) Diwygiwyd rheoliad 8(1) gan O.S. 2011/971 (Cy.141) ac O.S. 2015/1417 (Cy.141).

(2) Diwygiwyd rheoliad 9(1) gan O.S. 2011/971 (Cy.141) ac O.S. 2015/1417 (Cy.141).

(3) Diwygiwyd rheoliadau 8(2) a 9(2) gan O.S. 2015/1417 (Cy.141)

waste displaying hazardous properties)(1).”;

(c) paragraffau 2, 3 a 5 wedi eu hepgor;

(d) ar ôl paragraff 6 mewnosoder—

“6A. In this Article, the “list of waste” means the list established by Commission Decision 2000/532/EC.”;

(e) paragraff 7 wedi ei hepgor.

(8) Mae Atodiad 3 i’w ddarllen fel pe bai, yng nghofnod HP 9, yn yr ail frawddeg, “in the Member States” wedi ei hepgor.”

(5) Ar ôl adran 17 mewnosoder—

“Ystyr “y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio”

17A.—(1) Wrth ddarllen Erthygl 2 o’r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yn unol ag adran 17(4), ystyr “y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio” (“*the Mining Waste Directive*”) (fel y’i mewnosodwyd gan baragraff (a)(iii) o adran 17(4)) yw Cyfarwyddeb 2006/21/EC Senedd Ewrop a’r Cyngor ar reoli gwastraff o ddiwydiannau echdynnu(2), gan ei darllen yn unol ag is-adrannau (2) i (5).

(2) Mae Erthygl 2 i’w darllen fe pe bai—

(a) ym mharagraff 2(c), y cyfeiriad at Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwyddeb 2000/60/EC(3) yn gyfeiriad at yr Erthygl honno o’i darllen yn unol ag is-adran (4);

(b) paragraffau 3 a 4 wedi eu hepgor.

(3) Mae Erthygl 3(1) i’w darllen fel pe bai “Article 3(1) of the Waste Framework Directive, as read with Articles 5 and 6 of that Directive” wedi ei roi yn lle “Article 1(a) of Directive 75/442/EEC”.

(4) At ddibenion is-adran (2)(a), mae Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwyddeb 2000/60/EC i’w darllen fel pe bai—

(a) y cyfeiriad cyntaf at “Member States” yn gyfeiriad at Weinidogion Cymru neu Gorff Adnoddau Naturiol Cymru;

(1) 1990 p.43. Mewnosodwyd adran 62A gan O.S. 2005/894, a’i diwygio gan O.S. 2011/988, 2015/1360, 2018/721 (Cy.140) a 2018/942.

(2) OJ Rhif L 102, 11.4.2006, t 15, fel y’i diwygiwyd gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a’r Cyngor (OJ Rhif L 118, 18.7.2009, t 14).

(3) OJ Rhif L 327, 22.12.2000, t 1, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2014/101/EU (OJ Rhif L 311, 31.10.2014, t 32).

- (b) y canlynol wedi ei fewnosod ar y diwedd—

“and “environmental objectives”, in relation to a river basin district within the meaning of the Water Environment (Water Framework Directive) (England and Wales) Regulations 2017(1) has the same meaning as in those Regulations.

(5) Wrth ddarllen y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio yn unol ag is-adran (3), mae i'r cyfeiriad yn y Gyfarwyddeb honno at y “Waste Framework Directive” (fel y'i mewnosodwyd gan is-adran (3)) yr ystyr a roddir gan adran 17(2) o'r mesur hwn.”

RHAN 4

Diwygio is-ddeddfwriaeth

Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004

8.—(1) Mae Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)(3), yn y diffiniad o “cyfleuster gwastraff” (“*waste facility*”) (fel y'i hamnewidir gan reoliad 4(2)), yn lle “Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EU) 2017/997”, rhodder “Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff”.

(3) Ar ôl y diffiniad o “gwastraff trefol a gasglwyd” (“*collected municipal waste*”) mewnosoder—

ystyr “y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff” (“*the Waste Framework Directive*”) yw Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff(4) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EU) 2017/997(5), gan ei darllen yn unol â pharagraffau (3) i (9).

(4) Ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(3) Mae cyfeiriad at un neu fwy o Aelod-wladwriaethau mewn darpariaeth sy'n gosod

-
- (1) O.S. 2017/407, y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(2) O.S. 2004/1490 (Cy.155).
(3) Diwygiwyd y diffiniad o “cyfleuster gwastraff” gan O.S. 2011/971 (Cy.141) ac O.S. 2016/691 (Cy.189). Ceir diwygiadau eraill ond nid yw'r un yn berthnasol.
(4) OJ Rhif L 312, 22.11.08, t 3.
(5) OJ Rhif L 150, 14.6.2017, t 1.

rhwymedigaeth ar Aelod-wladwriaeth neu Aelod-wladwriaethau neu sy'n rhoi disgrisiwn i Aelod-wladwriaeth neu Aelod-wladwriaethau i'w ddarllen fel cyfeiriad at Weinidogion Cymru, Corff Adnoddau Naturiol Cymru neu'r awdurdod lleol a oedd, yn union cyn y diwrnod ymadael, yn gyfrifol am gydymffurfiaeth y Deyrnas Unedig â'r rhwymedigaeth honno neu'n cael arfer y disgrisiwn hwnnw o ran Cymru.

(4) Mae Erthygl 2 i'w darllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff 2—

- (i) yn y geiriau o flaen pwynt (a), “retained EU law” wedi ei roi yn lle “other Community legislation”;
- (ii) ym mhwyntiau (b) a (c), “Regulation (EC) No 1069/2009” wedi ei roi yn lle “Regulation (EC) No 1774/2002”;
- (iii) ym mhwynt (d), “the Mining Waste Directive (gweler rheoliad 2A)” wedi ei roi yn lle'r geiriau o “Directive 2006/21/EC” hyd at y diwedd;

(b) ym mharagraff 3, y geiriau o “Without prejudice” hyd at “Community legislation,” wedi eu hepgor;

(c) paragraff 4 wedi ei hepgor.

(5) Mae Erthygl 5 i'w darllen fel pe bai paragraff 2 wedi ei hepgor.

(6) Mae Erthygl 6 i'w darllen fel pe bai—

(a) paragraffau 1 i 3 wedi eu hepgor;

(b) ym mharagraff 4—

- (i) yn y frawddeg gyntaf, “Except where waste ceases to be waste in accordance with Council Regulation (EU) No 333/2011, Commission Regulation (EU) No 1179/2012 or Commission Regulation (EU) No 715/2013” wedi ei roi yn lle'r geiriau o “Where criteria” hyd at “paragraphs 1 and 2”;
- (ii) yr ail frawddeg wedi ei hepgor.

(7) Mae Erthygl 7 i'w darllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff 1—

- (i) y frawddeg gyntaf a'r ail frawddeg wedi eu hepgor;
- (ii) yn y drydedd frawddeg, “shall, subject to paragraph 1A, be binding wedi ei roi yn lle “shall be binding”;

- (b) ar ôl paragraff 1, y canlynol wedi ei fewnosod—

“1A. Paragraph 1 is subject to—

- (a) a determination by the Welsh Ministers under regulation 8(1) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005 that a specific batch of waste is to be treated as hazardous waste;
 - (b) a decision made by the Welsh Ministers under regulation 9(1) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005 that a specific batch of waste is to be treated as non-hazardous waste;
 - (c) the treating of a specific batch of waste as hazardous or, as the case may be, non-hazardous, in accordance with regulations 8(2) or 9(2) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005;
 - (d) regulations (if any) made by the Welsh Ministers under section 62A(2) of the Environmental Protection Act 1990 (lists of waste displaying hazardous properties).”;
- (c) paragraffau 2, 3 a 5 wedi eu hepgor;
- (d) ar ôl paragraff 6 y canlynol wedi ei fewnosod—

“6A. In this Article, the “list of waste” means the list established by Commission Decision 2000/532/EC.”;

- (e) paragraff 7 wedi ei hepgor.

(8) Mae Atodiad 3 i’w ddarllen fel pe bai, yng nghofnod HP 9, yn yr ail frawddeg, “in the Member States” wedi ei hepgor.

(9) Ym mharagraff (3) ystyr “awdurdod lleol” yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.”

- (5) Ar ôl rheoliad 2, mewnosoder—

“Ystyr “y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio” yn rheoliad 2

2A.—(1) Yn rheoliad 2(4)(a)(iii), ystyr “y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio” (“*the Mining Waste Directive*”) yw Cyfarwyddeb 2006/21/EC Senedd Ewrop a’r Cyngor ar reoli gwastraff o ddiwydiannau echdynnu, gan ei darllen yn unol â pharagraffau (2) i (4).

- (2) Mae Erthygl 2 i’w darllen fe pe bai—

(a) ym mharagraff 2(c), y cyfeiriad at Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwyddeb 2000/60/EC yn gyfeiriad at yr Erthygl honno o'i darllen yn unol â pharagraff (4) o'r rheoliad hwn;

(b) paragraffau 3 a 4 wedi eu hepgor.

(3) Mae Erthygl 3(1) i'w darllen fel pe bai "Article 3(1) of the Waste Framework Directive, as read with Articles 5 and 6 of that Directive" wedi ei roi yn lle "Article 1(a) of Directive 75/442/EC".

(4) At ddibenion paragraff (2)(a), mae Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwyddeb 2000/60/EC i'w darllen fel pe bai—

(a) y cyfeiriad cyntaf at "Member States" yn gyfeiriad at yr Weinidogion Cymru neu Corff Adnoddau Naturiol Cymru;

(b) ar y diwedd, y canlynol wedi ei fewnosod—

"and "environmental objectives", in relation to a river basin district within the meaning of the Water Environment (Water Framework Directive) (England and Wales) Regulations 2017 has the same meaning as in those Regulations."

(6) Yn rheoliad 7(10) (fel y'i diwygir gan reoliad 4(3)), ar y diwedd, mewnosoder "o'i ddarllen yn unol â pharagraff (11).

(7) Ar ôl paragraff (10) mewnosoder—

"(11) At ddibenion rheoliad 7(10), mae'r Gyfarwyddeb i'w darllen fel pe bai—

(a) yn Erthygl 2—

(i) y canlynol wedi ei roi yn lle pwynt (a)—

"(a) 'waste' has the meaning given by Article 3(1) of the Waste Framework Directive, as read with Article 5 and 6 of that Directive;"

(ii) y canlynol wedi ei roi yn lle pwynt (c)—

"(c) 'hazardous waste' has the meaning given by Article 3(2) of the Waste Framework Directive."

(b) yn Erthygl 3(2), "Without prejudice to existing Community legislation," wedi ei hepgor."

Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005

9.—(1) Mae Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

- (a) yn is-baragraff (a), ar y diwedd mewnosoder “, ac fel y’i darllenir yn unol â rheoliad 2A”;
- (b) yn is-baragraff (b)(i), ar y diwedd mewnosoder “, fel y’i darllenir gydag Erthyglau 5 a 6 o’r Gyfarwyddeb honno”.

(3) Ar ôl rheoliad 2 mewnosoder—

“Ystyr y Gyfarwyddeb Wastraff

2A.—(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae’r Gyfarwyddeb Wastraff i’w darllen yn unol â’r rheoliad hwn.

(2) Mae cyfeiriad at un neu fwy o Aelod-wladwriaethau mewn darpariaeth sy’n gosod rhwymedigaeth ar Aelod-wladwriaeth neu Aelod-wladwriaethau neu sy’n rhoi disgrisiwn i Aelod-wladwriaeth neu Aelod-wladwriaethau i’w ddarllen fel cyfeiriad at yr awdurdod priodol neu’r awdurdod lleol a oedd, yn union cyn y diwrnod ymadael, yn gyfrifol am gydymffurfiaeth y Deyrnas Unedig â’r rhwymedigaeth honno neu’n cael arfer y disgrisiwn hwnnw o ran Cymru.

(3) Mae Erthygl 2 i’w darllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff 2—

- (i) yn y geiriau o flaen pwynt (a), “retained EU law” wedi ei roi yn lle “other Community legislation”;
- (ii) ym mhwyntiau (b) a (c), “Regulation (EC) No 1069/2009” wedi ei roi yn lle “Regulation (EC) No 1774/2002” ;
- (iii) ym mhwynt (d), “the Mining Waste Directive” wedi ei roi yn lle’r geiriau o “Directive 2006/21/EC” hyd at y diwedd;

(b) ym mharagraff 3, y geiriau o “Without prejudice” hyd at “Community legislation,” wedi eu hepgor;

(c) paragraff 4 wedi ei hepgor.

(4) Mae Erthygl 3(20) i’w darllen fel pe bai “Article 3(10) of the Industrial Emissions Directive” wedi ei roi yn lle “Article 2(11) of Directive 96/61/EC”.

(1) O.S. 2005/1806 (Cy.138).

(5) Mae Erthygl 5 i'w darllen fel pe bai paragraff 2 wedi ei hepgor.

(6) Mae Erthygl 6 i'w darllen fe pe bai—

(a) paragraffau 1 i 3 wedi eu hepgor;

(b) ym mharagraff 4—

(i) yn y frawddeg gyntaf, “Except where waste ceases to be waste in accordance with Council Regulation (EU) No 333/2011, Commission Regulation (EU) No 1179/2012 or Commission Regulation (EU) No 715/2013” wedi ei roi yn lle'r geiriau o “Where criteria” hyd at “paragraphs 1 and 2”;

(ii) yr ail frawddeg wedi ei hepgor.

(7) Mae Erthygl 7 i'w darllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff 1—

(i) y frawddeg gyntaf a'r ail frawddeg wedi eu hepgor;

(ii) yn y drydedd frawddeg, “shall, subject to paragraph 1A, be binding” wedi ei roi yn lle “shall be binding”;

(b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff 1—

“1A. Paragraph 1 is subject to—

(a) a determination by the Welsh Ministers under regulation 8(1) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005 that a specific batch of waste is to be treated as hazardous waste;

(b) a decision made by the Welsh Ministers under regulation 9(1) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005 that a specific batch of waste is to be treated as non-hazardous waste;

(c) the treating of a specific batch of waste as hazardous or, as the case may be, non-hazardous, in accordance with regulations 8(2) or 9(2) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005;

(d) regulations (if any) made by the Welsh Ministers under section 62A(2) of the Environmental Protection Act 1990 (lists of waste displaying hazardous properties).”;

(c) paragraffau 2, 3 a 5 wedi eu hepgor;

(d) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff 6—

“6A. In this Article, the “list of waste” means the list established by Commission Decision 2000/532/EC.”;

(e) paragraff 7 wedi ei hepgor.

(8) Mae Erthygl 19 i’w darllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff 1, “national” wedi ei roi yn lle “Community”;

(b) ym mharagraff 2, “Wales” wedi ei roi yn lle “a Member State”.

(9) Mae Atodiad 3 i’w ddarllen fel pe bai, yng nghofnod HP 9, yn yr ail frawddeg, “in the Member States” wedi ei hepgor.

(10) Ym mharagraff (2) ystyr “awdurdod lleol” yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.

Ystyr y “Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio” a “Chyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol”

2B.—(1) Yn rheoliad 2A(3)(a)(iii), ystyr “y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio” (“*the Mining Waste Directive*”) yw Cyfarwyddeb 2006/21/EC Senedd Ewrop a’r Cyngor ar reoli gwastraff o ddiwydiannau echdynnu, o’i darllen yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Mae Erthygl 2 i’w darllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff 2(c), y cyfeiriad at Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwyddeb 2000/60/EC yn gyfeiriad at y Gyfarwyddeb honno o’i darllen yn unol â pharagraff (7) o’r rheoliad hwn;

(b) paragraffau 3 a 4 wedi eu hepgor.

(3) Mae Erthygl 3(1) i’w darllen fel pe bai “Article 3(1) of the Waste Directive, as read with Articles 5 and 6 of that Directive” wedi ei roi yn lle “Article 1(a) of Directive 75/442/EEC”.

(4) Yn rheoliad 2A(4), ystyr “y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol” (“*the Industrial Emissions Directive*”) yw Cyfarwyddeb 2010/75/EU Senedd Ewrop a’r Cyngor ar allyriadau diwydiannol (atal a rheoli llygredd integredig)(1), o’i darllen yn unol â pharagraffau (5) a (6).

(5) Mae Erthygl 3 i’w darllen fel pe bai—

(1) OJ Rhif L 334 , 17.12.2010, t 17, fel y’i cywirwyd gan gorigendwm (OJ Rhif L 158, 19.6.2012, t 25).

- (a) ym mhwynt (1)(a), “Article 4(78) of Council Directive 2013/59/Euratom laying down basic safety standards for protection against the dangers arising from exposure to ionising radiation(1)” wedi ei roi yn lle’r geiriau o “Article 1” hyd at y diwedd;
 - (b) ym mhwynt (10)(b), “United Kingdom” wedi ei roi yn lle “Member State in question”;
 - (c) ym mhwynt (23), “point 1 of the second subparagraph of Article 2 of Council Directive 2009/158/EC on animal health conditions governing intra-Community trade in, and imports from third countries of, poultry and hatching eggs(2)” wedi ei roi yn lle’r geiriau o “point 1” hyd at y diwedd;
 - (d) ym mhwynt (37), “the Waste Directive, as read with Articles 5 and 6 of that Directive” wedi ei roi yn lle “Directive 2008/98/EC of the European Parliament and of the Council of 19 November 2008 on waste”.
- (6) Mae Atodiad 1 i’w ddarllen fel pe bai—
- (a) yr ail baragraff wedi ei hepgor yn y geiriau o flaen pwynt 1;
 - (b) ym mhwynt 5.3—
 - (i) ym mhwynt (a), yn y geiriau o flaen pwynt (i), “the Urban Waste Water Treatment (England and Wales) Regulations 1994(3)” wedi ei roi yn lle “Council Directive 91/271/EEC of 21 May 1991 concerning urban waste-water treatment”;
 - (ii) ym mhwynt (b), yn y geiriau o flaen pwynt (i), “the Urban Waste Water Treatment (England and Wales) Regulations 1994 wedi ei roi yn lle “Directive 91/271/EEC”;
 - (c) ym mhwynt 5.4, y cyfeiriad at Gyfarwyddeb y Cyngor 1999/31/EC ddyddiedig 26 Ebrill 1999 ar dirlenwi gwastraff yn gyfeiriad at y Gyfarwyddeb Dirlenwi;

(1) OJ Rhif L 13, 17.1.2014, t 1, fel y’i cywirwyd gan gorigendwm (OJ Rhif L 072, 17.3.2016, t 69).

(2) OJ Rhif L 343, 22.12.2009, t 74, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad Gweithredu’r Comisiwn 2011/879/EU (OJ Rhif L 343, 23.12.2011, t 105).

(3) O.S. 1994/2841.

(d) ym mhwynt 6.9, “the EU-derived domestic legislation which transposed Directive 2009/31/EC in respect of Wales” wedi ei roi yn lle “Directive 2009/31/EC”;

(e) ym mhwynt 6.11, “the Urban Waste Water Treatment (England and Wales) Regulations 1994” wedi ei roi yn lle “Directive 91/271/EEC”.

(7) At ddibenion paragraff (2)(a), mae Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwyddeb 2000/60/EC i’w darllen fel pe bai—

(a) y cyfeiriad cyntaf at “Member States” yn gyfeiriad at yr awdurdod priodol;

(b) y canlynol wedi ei fewnosod ar y diwedd—

“and “environmental objectives”, in relation to a river basin district within the meaning of the Water Environment (Water Framework Directive) (England and Wales) Regulations 2017, has the same meaning as in those Regulations.”.

(4) Yn rheoliad 5(1)—

(a) yn y lle priodol mewnosoder—

ystyr “awdurdod priodol” (“*appropriate authority*”) yw Gweinidogion Cymru, CANC neu’r Asiantaeth;”;

(b) ar ôl y diffiniad o “gwastraff peryglus” (“hazardous waste”) mewnosoder—

ystyr “y Gyfarwyddeb Dirlenwi” (“*the Landfill Directive*”) yw Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/31/EC ar dirlenwi gwastraff (1), fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2011/97/EU(2), gan ei darllen fel pe bai—

(a) yn Erthygl 2—

(i) yn lle pwynt (a) rhodder—

“(a) ‘waste’ has the meaning given by regulation 2(1)(b) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005;”;

(ii) yn lle pwynt (c) rhodder—

“(c) ‘hazardous waste’ has the meaning given in regulation 6 of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005.”;

(1) OJ Rhif L 182, 16.7.1999, t 1.

(2) OJ Rhif L 328, 10.12.2011, t 49.

- (b) yn Erthygl 3(2), “Without prejudice to existing Community legislation,” wedi ei hepgor.”.

(5) Yn rheoliad 8—

(a) ym mharagraff (2)—

- (i) hepgorer y geiriau o “gan yr Ysgrifennydd Gwladol” hyd at “yn ôl y digwydd,”;
- (ii) yn lle “ag Erthygl 7(2) o’r Gyfarwyddeb Wastraff” rhodder “â pharagraff (3)”;

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(3) At ddibenion paragraff (2), penderfynir bod swp penodol o wastraff yn beryglus—

(a) o ran Lloegr—

- (i) os yw o fath a restrir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 62A(2) o Ddeddf 1990;
 - (ii) os yw’n destun penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan reoliad 8 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005(1);
- (b) o ran Gogledd Iwerddon, os yw’n destun penderfyniad gan yr Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig o dan reoliad 9 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Gogledd Iwerddon) 2005(2);
- (c) o ran yr Alban, os yw’n destun penderfyniad gan Weinidogion yr Alban, am fod Gweinidogion yr Alban o’r farn bod y gwastraff yn amlygu un neu ragor o’r nodweddion peryglus a restrir yn Atodiad III.”.

(6) Yn rheoliad 9—

(a) ym mharagraff (2)—

- (i) hepgorer y geiriau o “gan yr Ysgrifennydd Gwladol” hyd at “yn ôl y digwydd,”;
- (ii) yn lle “ag Erthygl 7(2) o’r Gyfarwyddeb Wastraff” rhodder “â pharagraff (3)”;

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(3) At ddibenion paragraff (2), penderfynir bod swp penodol o wastraff yn wastraff nad yw’n beryglus os nad yw’n destun penderfyniad—

(1) O.S. 2005/894, a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/988, 2015/1360, 2016/738, 2018/575.
(2) S.R. 2005 Rhif 300; offerynnau diwygio perthnasol yw S.R. 2011 Rhif 127 ac S.R. 2015 Rhif 288.

- (a) o ran Lloegr, gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan reoliad 9 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005;
- (b) o ran Gogledd Iwerddon, gan yr Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig o dan reoliad 10 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Gogledd Iwerddon) 2005;
- (c) o ran yr Alban, gan Weinidogion yr Alban, am fod Gweinidogion yr Alban o'r farn nad yw'r gwastraff yn amlygu unrhyw nodweddion peryglus a restrir yn Atodiad III.”.

(7) Yn rheoliadau 47(5B) a 48(6B) (fel y'u diwygir gan reoliad 5(2) a 5(3)), yn lle “Gyfarwyddeb y Cyngor 1999/31/EC ar dirlenwi gwastraff fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2011/97/EU” rhodder “y Gyfarwyddeb Dirlenwi”.

(8) Yn rheoliad 60(1), yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), hepgorer o “ac” hyd at “Wastraff”.

Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011

10.—(1) Mae Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o “y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff” (“*the Waste Framework Directive*”) (fel y'i hamnewidir gan reoliad 6), ar y diwedd, mewnosoder “gan ei darllen yn unol â pharagraffau (3) i (8)”.

(3) Ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(3) Mae cyfeiriad at un neu fwy o Aelod-wladwriaethau mewn darpariaeth sy'n gosod rhwymedigaeth ar Aelod-wladwriaeth neu Aelod-wladwriaethau neu sy'n rhoi disgrisiwn i Aelod-wladwriaeth neu Aelod-wladwriaethau i'w ddarllen fel cyfeiriad at Weinidogion Cymru, Corff Adnoddau Naturiol Cymru neu awdurdod lleol a oedd, yn union cyn y diwrnod ymadael, yn gyfrifol am gydymffurfiaeth y Deyrnas Unedig â'r rhwymedigaeth honno neu'n cael arfer y disgrisiwn hwnnw o ran Cymru.

(4) Mae Erthygl 2 i'w darllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff 2—

(1) O.S. 2011/1014 (Cy.152), a ddiwygiwyd gan O.S.2016/691 (Cy.189); ceir offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un yn berthnasol.

- (i) yn y geiriau o flaen pwynt (a), “retained EU law” wedi ei roi yn lle “other Community legislation”;
 - (ii) ym mhwyntiau (b) a (c), “Regulation (EC) No 1069/2009” wedi ei roi yn lle “Regulation (EC) No 1774/2002”;
 - (iii) ym mhwynt (d), “the Mining Waste Directive (see regulation 2A)” wedi ei roi yn lle’r geiriau o “Directive 2006/21/EC” hyd at y diwedd;
- (b) ym mharagraff 3, y geiriau o “Without prejudice” hyd at “Community legislation,” wedi eu hepgor;
- (c) paragraff 4 wedi ei hepgor.(5) Mae Erthygl 5 i’w darllen fel pe bai paragraff 2 wedi ei hepgor.
- (6) Mae Erthygl 6 i’w darllen fel pe bai—
- (a) paragraffau 1 i 3 wedi eu hepgor;
 - (b) ym mharagraff 4—
 - (i) yn y frawddeg gyntaf, “Except where waste ceases to be waste in accordance with Council Regulation (EU) No 333/2011, Commission Regulation (EU) No 1179/2012 or Commission Regulation (EU) No 715/2013” wedi ei roi yn lle’r geiriau o “Where criteria” hyd at “paragraphs 1 and 2”;
 - (ii) yr ail frawddeg wedi ei hepgor.
- (7) Mae Erthygl 7 i’w darllen fe pe bai—
- (a) ym mharagraff 1—
 - (i) y frawddeg gyntaf a’r ail frawddeg wedi eu hepgor;
 - (ii) yn y drydedd frawddeg, “shall, subject to paragraph 1A, be binding” wedi ei roi yn lle “shall be binding”;
 - (b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff 1—

“1A. Paragraph 1 is subject to—

 - (a) a determination by the Welsh Ministers under regulation 8(1) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005 that a specific batch of waste is to be treated as hazardous waste;
 - (b) a decision made by the Welsh Ministers under regulation 9(1)

of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005 that a specific batch of waste is to be treated as non-hazardous waste;

(c) the treating of a specific batch of waste as hazardous or, as the case may be, non-hazardous, in accordance with regulations 8(2) or 9(2) of the Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005;

(d) regulations (if any) made by the Welsh Ministers under section 62A(2) of the Environmental Protection Act 1990 (lists of waste displaying hazardous properties).”;

(c) paragraffau 2, 3 a 5 wedi eu hepgor;

(d) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff 6—

“6A. In this Article, the “list of waste” means the list established by Commission Decision 2000/532/EC.”;

(e) paragraff 7 wedi ei hepgor.

(8) Mae Atodiad 3 i’w ddarllen fel pe bai, yng nghofnod HP 9, yn yr ail frawddeg, “in the Member States” wedi ei hepgor.”

(4) Ar ôl rheoliad 2, mewnosoder—

“Ystyr “y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio” yn rheoliad 2

2A.—(1) Yn rheoliad 2(4)(a)(iii), ystyr “y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio” (“*the Mining Waste Directive*”) yw Cyfarwyddeb 2006/21/EC Senedd Ewrop a’r Cyngor ar reoli gwastraff o ddiwydiannau echdynnu, gan ei darllen yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Mae Erthygl 2 i’w darllen fe pe bai—

(a) ym mharagraff 2(c), y cyfeiriad at Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwyddeb 2000/60/EC yn gyfeiriad at yr Erthygl honno o’i darllen yn unol â pharagraff (4) o’r rheoliad hwn;

(b) paragraffau 3 a 4 wedi eu hepgor.

(3) Mae Erthygl 3(1) i’w darllen fel pe bai “Article 3(1) of the Waste Framework Directive, as read with Articles 5 and 6 of that Directive” wedi ei roi yn lle “Article 1(a) of Directive 75/442/EC”.

(4) At ddibenion paragraff (2)(a), mae Erthygl 11(3)(j) o Gyfarwyddeb 2000/60/EC i’w darllen fel pe bai—

- (a) y cyfeiriad cyntaf at “Member States” yn gyfeiriad at Weinidogion Cymru neu Gorff Adnoddau Naturiol Cymru;
- (b) ar y diwedd, y canlynol wedi ei fewnosod—

“and “environmental objectives”, in relation to a river basin district within the meaning of the Water Environment (Water Framework Directive) (England and Wales) Regulations 2017 has the same meaning as in those Regulations.”.

Name

Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth leol, o dan awdurdod y Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

Explanatory Memorandum to The Waste (Wales) (Miscellaneous Amendments) (EU Exit) Regulations 2019

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Department for Environment and Rural Affairs and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

Minister/Deputy Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of The Waste (Wales) (Miscellaneous Amendments) (EU Exit) Regulations 2019.

I have made the statements required by the European Union (Withdrawal) Act 2018. These statements can be found in Part 2 of the annex to this memorandum.

Hannah Blythyn

Deputy Minister for Housing and Local Government

5 February 2019

PART 1

1. Description

This instrument makes amendments using powers under the European Union (Withdrawal) Act 2018 (except part 2 – see below) to the following legislation:

- The Waste (Wales) Measure 2010
- The Landfill Allowance Scheme (Wales) Regulations 2004
- The Hazardous Waste (Wales) Regulations 2005
- The Recycling Preparation for Re-use and Composting Targets (Monitoring and Penalties) (Wales) Regulations 2011

The amendments are to ensure that the statute book remains functional following the UK's exit from the EU and will address deficiencies in Welsh domestic legislation arising from EU Exit.

Part 2 of the Instrument is made under section 2(2) of the European Communities Act 1972 and corrects out of date references to European law and domestic legislation prior to, and in readiness for the UK's exit from the EU. This is required because out of date references to legislation are not necessarily interpreted as references to the correct (updated) legislation and there is therefore a risk that the statute book would not work effectively and inaccessible post-Brexit.

2. Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

This instrument (with the exception of Part 2) is being made using the power conferred by paragraph 1(1) of Schedule 2 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 (hereafter “the Withdrawal Act”).

As set out in the Ministerial statement in Annex 2 of this Explanatory Memorandum it is proposed that the instrument be subject to the negative procedure. Such instruments must first be laid for sifting by the Constitutional and Legislative Affairs Committee. The instrument makes minor and technical changes and as such should be subject to annulment.

3. Legislative background

This instrument is being made using the power conferred by paragraph 1(1) of Schedule 2 to the Withdrawal Act in order to address failures of retained EU law to operate effectively or other deficiencies arising from the withdrawal of the United Kingdom from the European Union.

These Regulations are proposed to be made subject to annulment and laid for the purpose of being sifted by the Constitutional and Legislative Affairs Committee (proposed negative).

4. Purpose and intended effect of the legislation

What did any relevant retained EU law do before exit day?

The instrument amends four pieces of Welsh legislation relating to waste which implement various European Directives related to waste management to ensure that the waste regime can continue to operate effectively after the UK leaves the EU. No environmental standards are being removed or amended. Modifications are necessary to the text of the domestic legislation, removing or amending references to EU Directives and associated EU terms to ensure that waste legislation continues to operate as intended after EU exit.

EU law lays down rules and frameworks for the management of waste. These are implemented in Wales primarily via domestic legislation. The instrument amends that domestic legislation under powers in the Withdrawal Act (except Part 2 see section on 'out of date references below) to make the necessary technical changes to ensure that it will continue to operate effectively after the UK has left the EU, as set out below.

The Waste (Wales) Measure 2010 (“the 2010 Measure”)

The 2010 Measure makes provision, amongst other things:

- about targets to be met by local authorities in relation to waste;
- about prohibiting or otherwise regulating the deposit of waste in a landfill;
The requirement for the provision of additional loans from Her Majesty's Treasury to enable the continuation of existing undergraduate student support policy is established. The estimated cost of the additional loans between 2018-19 and 2019-20 is around £100m. In addition, the Government subsidy on the provision of loans (Resource Accounting and Budgeting ('RAB') charge, or non-cash) will increase by around £40m between 2018-19 and 2019-20. Most of the increased budget requirements result from a new intake of students on the arrangements established by the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2018, with a relatively small proportion as a consequence of routine uplifts to maximum loan amounts. Also largely as a consequence of the continuation of established policy, the combined cost of maintenance and tuition fee grants for undergraduate students is estimated to be around £45m lower in 2019-20 than in 2018-19.

Section 67 leave – unaccompanied children

The changes outlined relating to the unaccompanied children are expected to have no or negligible financial implications for the Welsh Government. It is not possible to determine how many unaccompanied children may take up support for study, but the number will be very small. The UK Government will grant leave to 480 refugees, a small proportion of which can be expected to become ordinarily resident in Wales, and fewer still to pursue a higher education.

Designation of courses in England

Making the regulations will ensure courses currently designated for the purposes of student support continue to be. There may be some additional cost if students at providers subject to the lower rate of fee support are provided a higher rate of fee support as part of transitional protection. This is unlikely to be extensive and the cost implications are expected to be nil or negligible.

Changes in the coding of part-time exception courses

The regulations will ensure courses currently considered as exceptions to equivalent level qualifications restrictions on access to support for part-time study continue to be considered as such. There is, therefore, no additional cost.

CONSULTATION

There is no statutory requirement to consult on the Regulations, but a short consultation was carried out in December and February 2019 to ascertain views from stakeholders in two policy areas:

- a. a new residency category in the regulations so that individuals granted leave to remain under Section 67 of the Immigration Act 2016 will be eligible students for the purpose of student support;
- b. new designation arrangements for English HEIs as a result of the introduction of the Office for Students (OfS).

A summary of the consultation responses has been published. A Student Finance Wales Information Notice detailing some of the changes was issued in December 2018.

COMPETITION ASSESSMENT

The making of the Regulations has no impact on the competitiveness of businesses, charities or the voluntary sector.

POST-IMPLEMENTATION ASSESSMENT

The main regulations governing the student support system are revised annually and are continually subject to detailed review, both by policy officials and delivery partners in their practical implementation of the Regulations.

SUMMARY

The making of these Regulations is necessary to establish the basis for, and update aspects of, the higher education student support system (and connected matters) for students ordinarily resident in Wales and EU students studying in Wales in the 2019/20 academic year.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Fframweithiau Cyffredin
DYDDIAD	12 Chwefror 2019
GAN	Jeremy Miles AC, Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit

Mae Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU adrodd wrth y Senedd yn rheolaidd am faterion yn ymwneud â fframweithiau cyffredin a defnydd Llywodraeth y DU o bwerau dan adran 12 o'r Ddeddf (y 'pwerau rhewi') dros dro i gynnal cyfyngiadau cyfraith bresennol yr UE ar gymhwysedd datganoledig. Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw adroddiad o'r fath gael ei osod gerbron y Cynulliad o fewn un diwrnod i gael ei osod yn Senedd y DU.

[Gosodwyd yr ail adroddiad o'r fath yn Senedd y DU ar 7 Chwefror.](#)



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

DYDDIAD 8 Chwefror 2019

GAN Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 ("y Rheoliadau")

Mae'r datganiad ysgrifenedig hwn wedi'i ail-gyhoeddi oherwydd i'r Rheoliadau gael eu gosod gan Lywodraeth y DU ar 16 Ionawr, eu tynnu yn ôl, eu hail-osod ar 17 Ionawr, eu tynnu yn ôl ac yna eu gosod eto ar 30 Ionawr. Roedd hyn yn sgil yr angen i gywiro camgymeriadau yn y Rheoliadau a ganfuwyd wrth graffu ar ôl eu gosod. Nid yw'r diwygiadau a wnaed yn effeithio ar ddiben nac effaith y Rheoliadau.

Prif gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio

- Rheoliad (EC) 1924/2006 - gosod y fframwaith cyfreithiol y mae'n rhaid i fusnesau gydymffurfio ag ef os am wneud honiadau ynghylch maeth neu iechyd er mwyn sicrhau bod yr honiadau yn gywir ac nad yw defnyddwyr yn cael eu camarwain.
- Rheoliad (EC) 1925/2006 - pennu pa fitaminau, mwynau, a sylweddau penodol eraill y gellir eu hychwanegu at fwydydd; gosod sut y gall sylweddau newydd gael eu hasesu a'u cymeradwyo; ac amlinellu gofynion cyfansoddiadol a labelu ar gyfer bwydydd sydd â sylweddau wedi'u hychwanegu atynt.
- Rheoliad (EC) 609/2013 - gosod rheolau cyffredinol ynghylch cyfansoddiad a labelu ar bedwar categori o fwyd sef fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol, grawnfwydydd a bwydydd babanod wedi'u prosesu, bwyd at ddibenion meddygol arbennig (bwydydd angenrheidiol ar gyfer rheoli cyflyrau meddygol penodol) a chynnyrch amnewid deiet yn llwyr mewn deietau cyfyng o ran ynni er mwyn rheoli pwysau.

Deddfwriaeth drydyddol yr UE sy'n ddarostyngedig i ddiwygiadau mân a thechnegol

- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 353/2008
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 953/2009
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 983/2009
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 984/2009
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1024/2009
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1025/2009
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1167/2009
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1168/2009

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 375/2010
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 382/2010
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 383/2010
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 384/2010
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 957/2010
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 958/2010
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1161/2010
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1162/2010
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 432/2011
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 440/2011
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 665/2011
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 666/2011
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1160/2011
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1170/2011
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1171/2011
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 307/2012
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 378/2012
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 379/2012
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 489/2012
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1048/2012
- 2013/63/EU: Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 851/2013
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1017/2013
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1066/2013
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 40/2014
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 155/2014
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 175/2014
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1135/2014
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1154/2014
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1226/2014
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1228/2014
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1229/2014
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2015/7
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2015/8
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2015/391
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2015/402
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2015/539
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2015/1041
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2015/1052
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2015/1886
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2015/1898
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2015/2314
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2016/128
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2016/371

- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2016/372
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EE) Rhif 2016/854
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2016/862
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2016/1379
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2016/1381
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2016/1389
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2016/1390
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2016/1411
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2016/1412
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2017/236
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 2017/672
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 2017/676
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2017/1200
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2017/1201
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2017/1202
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2018/199
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2018/1555
- Rheoliad y Comisiwn (EU) 2018/1556

Cyfraith drydyddol yr UE sy'n cael ei dirymu

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 907/2013

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru yn ddilyffethair. Mae hefyd yn cynnwys darpariaeth lle gallai Gweinidogion Cymru ddarparu cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru ar eu rhan.

Byddai swyddogaethau a drosglwyddir â chydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n bosibl, felly, fod hynny'n ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

Diben y diwygiadau

Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion sy'n codi wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd mewn deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn ymwneud â maeth. Bydd y Rheoliadau yn gwneud diwygiadau technegol i gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir heb wneud unrhyw newid sylweddol i lefelau amddiffyn iechyd pobl nac i safon uchel y bwyd y mae defnyddwyr yn ei ddisgwyl mewn nwyddau a gynhyrchir yn y wlad hon a nwyddau sy'n cael eu mewnfario.

Bydd y Rheoliadau yn gwneud cywiriadau technegol megis diddymu cyfeiriadau at sefydliadau'r UE ac unrhyw Aelod-wladwriaethau eraill, ac yn diffinio 'trydydd gwledydd' fel unrhyw wlad y tu allan i'r DU.

Mae'r prif gywiriadau sy'n cael eu cynnig gan y Rheoliadau hyn yn cynnwys trosglwyddo'r swyddogaethau cynghori gwyddonol a ysgwyddir ar hyn o bryd gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop i gyrrff priodol sydd eisoes yn bodoli yn y DU neu i Bwyllgor Honiadau Iechyd a Maeth newydd yn y DU. Bydd y pwyllgor newydd hwn yn cael ei sefydlu dan Public Health England, ac fe fydd yn gyfrifol am gadarnhau honiadau yn wyddonol a darparu cyngor i bedair gweinyddiaeth y DU am unrhyw honiadau iechyd a maeth a wneir yn y DU ar ôl ymadael.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: <https://beta.parliament.uk/work-packages/SqFamWTC>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol) o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. O ganlyniad, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

UK MINISTERS ACTING IN DEVOLVED AREAS

83 - The Nutrition (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019

Laid in the UK Parliament: 8 February 2019

Sifting

Subject to sifting in UK Parliament?	No
Procedure:	Affirmative
Date of consideration by the House of Commons European Statutory Instruments Committee	N/A
Date of consideration by the House of Lords Secondary Legislation Scrutiny Committee	Not known
Date sifting period ends in UK Parliament	N/A
Written statement under SO 30C:	Paper 11
SICM under SO 30A (because amends primary legislation)	Not required

Scrutiny procedure

Outcome of sifting	N/A
Procedure	Affirmative
Date of consideration by the Joint Committee on Statutory Instruments	Not known
Date of consideration by the House of Commons Statutory Instruments Committee	Not known
Date of consideration by the House of Lords Secondary Legislation Scrutiny Committee	Not known

Commentary

These regulations are proposed to be made by the UK Government pursuant to sections 8(1) and 23 of, and paragraph 21 of Schedule 7 to, of the European Union (Withdrawal) Act 2018.

The purpose of this instrument is to remedy deficiencies in UK legislation relating to nutrition, arising from the withdrawal of the UK from the European Union ("EU"), in the event that the UK leaves without a deal having been agreed. This instrument amends existing domestic, and retained EU, legislation as well as revoking some pieces of related EU tertiary legislation which will no longer have any application to the UK after withdrawal.

The subject areas covered by this nutrition legislation are: nutrition and health claims made on food; the addition of vitamins, minerals and certain other substances to foods; composition and labelling of food supplements; the composition and labelling of food for specific groups; and the sale of products containing Kava-kava.

Legal Advisers make the following comments in relation to the Welsh Government's statement dated 8 February 2019 regarding the effect of these regulations:

1. These regulations were originally laid on 16 January 2019 but subsequently withdrawn. A new version of the regulations were laid on 17 January 2019. This version was later withdrawn, and the regulations were laid for a third time on 30 January 2019.
2. The original Welsh Government written statement was laid on 18 January 2019 but seemed to refer to the original version of the regulations. The Committee considered the statement on 28 January 2019 and agreed to write to the Minister to seek clarification on certain issues, including whether the Welsh Government had provided consent to the re-laid regulations, the Welsh Government's role, if any, in the re-drafting of the regulations, any effect on the Assembly's legislative competence, and the 11 day consultation period.
3. The Welsh Government written statement was amended and re-issued on 29 January 2019. As the re-issued statement merely amended the hyperlink to refer to the updated regulations, without providing any additional commentary, the Committee considered this unsatisfactory. This was made clear in the Committee's letter of 31 January 2019 to the Minister, which also raised the issues previously considered.
4. A response was received from the Minister for Finance and Trefnydd on 7 February 2019. The Welsh Government written statement was also re-issued on 8 February 2019.
5. The current written statement, like previous versions, states the following:

"While these Regulations contain provision which enable the Welsh Ministers to exercise functions in relation to Wales without encumbrance, they also contain provision whereby the Welsh Ministers could provide consent to the Secretary of State to exercise functions in relation to Wales on their behalf. Functions transferred to the Secretary of State with consent would constitute functions of a Minister of the Crown for the purposes of Schedule 7B to the Government of Wales Act 2006. This therefore may be a relevant consideration in the context of the Assembly's competence to legislate in the future in the subject areas outlined in the summary to this report."

6. Clarification was sought by the Committee on this point. In her response of 7 February 2019 to the Committee's letter of 31 January

2019, the Minister referred to her response to queries raised in relation to the Plant Breeders' Rights (Amendment etc.) (EU Exit) Regulations 2018. Here, the Minister states that:

“Welsh Government officials are in contact with the Wales Office about the unintended restrictions on the Assembly’s competence created by powers conferred in EU Exit SIs and other legislation, which engages paragraphs 8, 10 and 11 of Schedule 7B of the Government of Wales Act. Officials are examining the issue in detail and considering how it can best be resolved. The Welsh Government will keep the National Assembly, including the Constitutional and Legislative Affairs Committee, informed about the progress of these discussions.”

7. In relation to the drafting of the Welsh Government’s written statement dated 8 February 2019, the following EU law has been included in the list of tertiary legislation subject to minor and technical amendment, when in reality they are being revoked by this instrument:

- 2013/63/EU: Commission Implementing Decision adopting guidelines for the implementation of specific conditions for health claims laid down in Article 10 of Regulation (EC) No 1924/2006 of the European Parliament and of the Council;
- Commission Implementing Regulation (EU) No 489/2012 establishing implementing rules for the application of Article 16 of Regulation (EC) No 1925/2006 of the European Parliament and of the Council on the addition of vitamins and minerals and of certain other substances to foods.

Save for the points mentioned above, the above summary and the content of the Explanatory Memorandum to these Regulations confirm their effect.

Legal Advisers do not consider that any significant issues arise under paragraph 8 of the Memorandum on the European Union (Withdrawal) Bill and the Establishment of Common Frameworks in relation to these Regulations.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cyfyngiadau Chernobyl a Fukushima) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
DYDDIAD	5 Chwefror 2019
GAN	Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cyfyngiadau Chernobyl a Fukushima) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio

- Rheoliad (CE) Rhif 1635/2006 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (CEE) Rhif 737/90 ar yr amodau sy'n llywodraethu mewnfario cynhyrchion amaethyddol sy'n deillio o drydydd gwledydd yn dilyn y ddamwain yn orsaf bŵer niwclear Chernobyl;
- Rheoliad (CE) Rhif 733/2008 ar yr amodau sy'n llywodraethu mewnfario cynhyrchion amaethyddol sy'n deillio o drydydd gwledydd yn dilyn y ddamwain yn orsaf bŵer niwclear Chernobyl;
- Rheoliad (UE) 2016/6 sy'n gosod amodau arbennig sy'n llywodraethu mewnfario bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n deillio o Japan neu a anfonir oddi yno yn dilyn y ddamwain yn orsaf bŵer niwclear Fukushima ac yn diddymu Rheoliad Gweithredu (UE) Rhif 322/2014.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Bydd yr OS hwn yn cryfhau pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru. Bydd yn trosglwyddo pwerau deddfwriaethol presennol y Comisiwn Ewropeaidd o dan Reoliad 733/2008 i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau, yn ddarostyngedig i ddirymiad drwy benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol, i ddelio ag achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r lefelau uchaf o halogiad ymbelydrol a ganiateir, i newid y rhestr o gynhyrchion sydd angen mesurau rheoli ac i eithrio rhai cynhyrchion neu fusnesau rhag y lefelau uchaf a ganiateir. Ni fydd yr OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Diben y diwygiadau

Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion sy'n deillio o'r DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn neddffwriaeth yr UE a ddargedwir sy'n gosod yr amodau arbennig ar gyfer mewnfario bwyd a bwyd anifeiliaid yr effeithiwyd arnynt gan ddamweiniau niwclear yn Chernobyl, Wcráin a Fukushima, Japan.

Mae deddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn gwahardd mewnforio bwyd a bwyd anifeiliaid o wledydd yr effeithiwyd arnynt gan y damweiniau hynny sy'n uwch na'r lefelau uchaf o halogiad ymbelydrol a ganiateir. Mae'r deddfwriaeth a ddargedwir hefyd yn gosod amodau arbennig ar rai cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid a restrir, gan gynnwys profion cyn-allforio a datganiadau sy'n gorfod mynd gyda'r llwyth.

Bydd y Rheoliadau'n gwneud cywiriadau technegol megis cael gwared ar gyfeiriadau at sefydliadau'r UE ac Aelod-wladwriaethau eraill a bydd yn diffinio 'trydydd gwledydd' fel unrhyw wlad y tu allan i'r DU.

Y prif gywiriadau sylweddol a gynigir gan y Rheoliadau hyn yw trosglwyddo swyddogaethau'r Comisiwn, gan gynnwys swyddogaethau gwneud rheoleiddio, o dan gyfraith yr UE sy'n uniongyrchol berthnasol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru. Yn benodol, bydd Rheoliad 733/2008 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddelio â diffyg cydymffurfiaeth dro ar ôl tro gyda'r lefelau uchaf o halogiad ymbelydrol a ganiateir, i wneud diwygiadau i Atodiad 1 er mwyn newid y rhestr o gynhyrchion y mae angen mesurau rheoli arnynt a'u heithrio rhai cynhyrchion neu fusnesau o'r lefelau uchaf a ganiateir.

Bydd deddfwriaeth yr UE a ddargedwir mewn perthynas â bwyd a bwyd anifeiliaid o wledydd yr effeithir arnynt gan ddamweiniau niwclear Chernobyl a Fukushima yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020 mewn perthynas â Chymru, oni bai bod unrhyw deddfwriaeth bellach yn cael ei phasio yn dilyn adolygiad gan Weinidogion Cymru sy'n penderfynu y dylid cadw'r rheolaethau hyn.

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol, sy'n nodi effaith bob diwygiad yma: <https://beta.parliament.uk/work-packages/Qziplxyl>

Pam rhoddwyd caniatâd

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru/ASB Cymru a Llywodraeth y DU (ASB y DU) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai creu OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud heb fod angen. Bydd cydsynio i OS ar gyfer y DU i gyd yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae ASB Cymru/Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol fod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**GWEINIDOGION Y DU YN GWEITHREDU MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

91 - Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cyfyngiadau Chernobyl a Fukushima) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Wedi'u gosod yn Senedd y DU: 4 Chwefror 2019

Sifftio

Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU?	Na
Y weithdrefn:	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Dd/B
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Nid yw'n hysbys
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Dd/B
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 13
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Nid yw'n ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Dd/B
Y weithdrefn	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Nid yw'n hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Nid yw'n hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Nid yw'n hysbys

Sylwadau

Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir mewn cysylltiad â mewnfario bwyd a bwyd anifeiliaid o wledydd yr effeithir arnynt gan ddamweiniau Chernobyl a Fukushima i roi cyfeiriadau domestig yn lle'r rhai ar gyfer sefydliadau'r UE. Mewn perthynas â Chymru, mae hynny'n golygu rhoi cyfeiriadau at Lywodraeth Cymru (fel yr awdurdod priodol) a'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer cyfeiriadau at y Comisiwn Ewropeaidd ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop, yn y drefn honno.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 5 Chwefror 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.]

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion sylweddol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio am gynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.]



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Bwyd Newydd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

DYDDIAD 5 Chwefror 2019

GAN Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Bwyd Newydd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio

- Rheoliad (UE) 2015/2283 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar fwyd newydd, yn diwygio Rheoliad (UE) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ac yn diddymu Rheoliad (CE) Rhif 258/97 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd a Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1852/2001;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/2468 sy'n gosod gofynion gweinyddol a gwyddonol sy'n ymwneud â bwyd traddodiadol o drydydd gwledydd yn unol â Rheoliad (UE) 2015/2283 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar fwyd newydd;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/2469 sy'n gosod gofynion gweinyddol a gwyddonol ar gyfer ceisiadau y cyfeirir atynt yn Erthygl 10 Rheoliad (UE) 2015/2283 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar fwyd newydd;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/2470 yn sefydlu rhestr o fwyd newydd yr Undeb yn unol â Rheoliad (UE) 2015/2283 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar fwyd newydd;
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/456 ar gamau gweithdrefnol y broses ymgynghori ar gyfer penderfynu ar statws bwyd newydd yn unol â Rheoliad (UE) 2015/2283 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar fwyd newydd.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Bydd yr OS hwn yn cryfhau pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru. Bydd yn trosglwyddo pwerau cyfredol y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys swyddogaethau llunio rheoliadau, o dan y Rheoliadau ar fwyd newydd, i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i lunio rheoliadau, yn ddarostyngedig i ddirymiad gan y Cynulliad Cenedlaethol, i ychwanegu bwyd newydd awdurdodedig at restr y DU o fwyd newydd ac i newid manylebau ac amodau defnydd ar gyfer y bwyd newydd. Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn gallu llunio rheoliadau i ddiwygio elfennau nad ydynt yn hanfodol o gyfraith yr UE a ddargedwir, er enghraifft, newid diffiniad nanoddeunyddiau. Ni fydd yr OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Diben y diwygiadau

Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion yn neddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn ymwneud â bwyd newydd, yn deillio o'r DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Bydd hyn yn darparu fframwaith gweithredol yn y DU ar ôl Ymadael â'r UE ar gyfer asesu gwyddonol cyn rhoi bwyd/bwyd anifeiliaid newydd ar y farchnad a'u hawdurdodi.

Ni fydd y diwygiadau i ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn gweithredu unrhyw newidiadau polisi na newidiadau o ran dull rheoleiddio bwyd/bwyd anifeiliaid newydd.

- (a) Trosglwyddo swyddogaethau sydd gan yr Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd (EFSA) ar hyn o bryd i'r "Awdurdod Diogelwch Bwyd" (yr ASB yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a Safonau Bwyd yr Alban). Mae swyddogaethau cyfredol EFSA mewn perthynas â bwyd newydd yn cynnwys cynnal asesiadau risg a barn wyddonol ar geisiadau am awdurdodiadau bwyd newydd.
- (b) Trosglwyddo swyddogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â Chymru i Weinidogion Cymru. Bydd y pwerau'n galluogi/mynnu bod Gweinidogion Cymru yn:
 - Penderfynu a yw bwyd neu fwyd anifeiliaid yn dod o fewn y diffiniad o fwyd newydd.
 - Dod i benderfyniad ar y cais i roi bwyd newydd ar y farchnad yng Nghymru o fewn saith mis o ddyddiad cyhoeddi barn yr ASB ar gais bwyd newydd i'w awdurdodi.
 - Ychwanegu, dileu neu newid y manylebau, yr amodau defnydd, y gofynion labelu penodol ychwanegol neu'r gofynion monitro ar ôl rhoi cynnyrch ar y farchnad sy'n gysylltiedig â chynnwys bwyd newydd ar y rhestr.
 - Gwneud rheoliadau i ddiwygio elfennau nad ydynt yn hanfodol o gyfraith yr UE a ddargedwir, er enghraifft, i newid diffiniad nanoddeunyddiau.

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol, sy'n nodi effaith bob diwygiad yma:

<https://beta.parliament.uk/work-packages/e6qZuX4U>

Pam rhoddwyd caniatâd

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru/ASB Cymru a Llywodraeth y DU (ASB y DU) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai creu OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud heb fod angen. Bydd cydsynio i OS ar gyfer y DU i gyd yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae ASB Cymru/Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol fod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**GWEINIDOGION Y DU YN GWEITHREDU MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

92 - Rheoliadau Bwyd Newydd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Wedi'u gosod yn Senedd y DU: 4 Chwefror 2019

Sifftio

Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU?

Na

Y weithdrefn:

Cadarnhaol

Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin

Dd/B

Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi

Nid yw'n hysbys

Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU

Dd/B

Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:

Papur 15

Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)

Nid yw'n ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio

Dd/B

Y weithdrefn

Cadarnhaol

Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol

Nid yw'n hysbys

Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin

Nid yw'n hysbys

Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi

Nid yw'n hysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Diben y Rheoliadau hyn yw sicrhau llyfr statud sy'n parhau'n weithredol ar y diwrnod ymadael ac sy'n cynnal dilyniant o ran polisi a deddfwriaeth ynghylch bwyd newydd. Bwyd newydd yw unrhyw fwyd neu gynhwysion bwyd nad oedd ar gael yn gyffredin yn yr UE cyn 15 Mai 1997.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 5 Chwefror 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith. Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol

o'r farn bod unrhyw faterion sylweddol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Diwygio ac ati.) (Ymadael â'r UE) 2019
DYDDIAD	5 Chwefror 2019
GAN	Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Diwygio ac ati.) (Ymadael â'r UE) 2019

Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio

- Rheoliad (CE) Rhif 1829/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig (GM)
- Rheoliad (CE) Rhif 641/2004 ar reolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad (CE) Rhif 1829/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd o ran y cais i awdurdodi bwyd a bwyd anifeiliaid GM newydd, rhoi gwybod am y cynhyrchion GM presennol a phresenoldeb digwyddiadol neu na ellir ei osgoi o ddeunydd GM sydd wedi cael gwerthusiad risg ffafriol;
- Rheoliad Gweithredu (UE) Rhif 503/2013 ar geisiadau am awdurdodi bwyd a bwyd anifeiliaid GM yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 1829/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd a diwygio Rheoliadau'r Comisiwn (CE) Rhif 641/2004 a (CE) Rhif 1981/2006;
- Penderfyniad y Comisiwn 2006/197/EC;
- Penderfyniad y Comisiwn 2007/305/EC;
- Penderfyniad y Comisiwn 2007/306/EC;
- Penderfyniad y Comisiwn 2007/307/EC;
- Penderfyniad y Comisiwn 2007/692/EC;
- Penderfyniad y Comisiwn 2007/701/EC;
- Penderfyniad y Comisiwn 2007/703/EC;
- Penderfyniad y Comisiwn 2008/280/EC;
- Penderfyniad y Comisiwn 2008/730/EC;
- Penderfyniad y Comisiwn 2008/837/EC;
- Penderfyniad y Comisiwn 2008/933/EC;
- Penderfyniad y Comisiwn 2009/184/EC;
- Penderfyniad y Comisiwn 2009/813/EC;
- Penderfyniad y Comisiwn 2009/814/EC;
- Penderfyniad y Comisiwn 2009/866/EC;

- Penderfyniad y Comisiwn 2010/429/EU;
- Penderfyniad y Comisiwn 2011/354/EU;
- Penderfyniad y Comisiwn 2011/366/EU;
- Penderfyniad y Comisiwn 2011/891/EU;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2012/81/EU;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2012/82/EU;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2012/83/EU;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2012/84/EU;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2012/347/EU;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2012/651/EU;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2013/327/EU;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2013/648/EU;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2013/649/EU;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2013/650/EU;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/683;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/684;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/685;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/686;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/687;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/688;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/689;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/690;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/691;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/693;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/695;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/696;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/697;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/698;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/699;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/700;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/701;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/2279;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2015/2281;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2016/1215;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2016/1216;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2016/1217;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/1208;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/1209;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/1211;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/1212;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/2448;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/2449;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/2450;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/2451;

- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/2452;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/2453;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/1109;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/1110;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/1111;
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2018/1112.

Y gyfraith UE sy'n cael ei dirymu

- Rheoliad (CE) Rhif 1981/2006 ar reolau manwl ar gyfer gweithredu Erthygl 32 Rheoliad (CE) Rhif 1829/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd o ran labordy ymchwil y Gymuned ar gyfer organebau GM (UE) Rhif. 931/2011 o 19 Medi 2011 ar y gofynion o ran y gallu i olrhain a bennwyd gan Reoliad (CE) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Bydd yr OS hwn yn cryfhau pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru. Bydd yn trosglwyddo pwerau cyfredol y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys swyddogaethau gwneud rheoliadau, i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu a ddylid cymeradwyo ceisiadau am organebau newydd GM i'w rhoi ar y farchnad yng Nghymru. Bydd gan Weinidogion Cymru bwerau llunio rheoliadau hefyd, yn ddarostyngedig i ddirymiad drwy benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol, i ddiwygio rhannau nad ydynt yn hanfodol o Reoliad 1829/2003 ac i osod rheolau ar baratoi a chyflwyno ceisiadau ar gyfer awdurdodiadau GM. Bydd gan Weinidogion Cymru hefyd bwerau i benodi labordy cyfeirio er mwyn gallu cyflawni tasgau penodol sy'n gysylltiedig â dadansoddi bwyd a bwyd anifeiliaid GM, a gwneud rheoliadau i osod rheolau sy'n gysylltiedig â'r gwaith sydd i'w gynnal gan y labordy cyfeirio. Ni fydd yr OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Diben y diwygiadau

Diben y gwelliannau yw cywiro diffygion a fydd yn codi wrth i'r DU ymadael â'r UE o ran deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a fydd yn cael ei chadw sy'n gosod rheolau ar gyfer asesu gwyddonol cyn rhoi'r bwyd ar y farchnad ac awdurdodi bwyd/bwyd anifeiliaid GM.

Bydd y Rheoliadau yn gwneud cywiriadau technegol megis dileu cyfeiriadau at sefydliadau'r UE ac Aelod-wladwriaethau eraill. Bydd hefyd yn newid y cyfeiriad at gofrestr yr UE o fwyd/bwyd anifeiliaid GM awdurdodedig i fod yn gyfeiriad at gofrestr weinyddol yn y DU, a bydd yn diffinio 'trydydd gwledydd' fel unrhyw wlad y tu allan i'r DU. Bydd hefyd yn darparu ar gyfer diddymu Rheoliad (CE) Rhif 1981/2006 a oedd yn darparu ar gyfer defnyddio Labordai Cyfeirio Cymunedol.

Bydd y gwelliannau mwyaf sylweddol yn:

- trosglwyddo cyfrifoldebau sy'n perthyn i Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) i'r "Awdurdod Diogelwch Bwyd" (yr ASB yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a Safonau Bwyd yr Alban). Ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid GM, bydd hyn yn cynnwys

cynnal asesiadau risg a llunio safbwyntiau gwyddonol ar geisiadau am ganiatâd bwyd/bwyd anifeiliaid GM.

- diwygio cyfeiriadau at labordai GM a rhwydweithiau labordai i gyfeirio at Labordy Cyfeirio y DU.
- trosglwyddo swyddogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru er mwyn eu galluogi, neu fynnu eu bod yn:
 - Pennu a yw bwyd neu fwyd anifeiliaid yn dod o fewn cwrpas y gyfraith UE berthnasol sy'n cael ei chadw.
 - Penderfynu a ddylid cymeradwyo ceisiadau ar gyfer rhoi organebau GM newydd ar y farchnad.
 - Addasu, atal neu ddiddymu awdurdodiadau mewn amgylchiadau eithriadol.
 - Gwneud rheoliadau i ddiwygio elfennau nad ydynt yn hanfodol o gyfraith yr UE a ddargedwir, er enghraifft i ystyried datblygiadau newydd mewn gwyddoniaeth, a gwneud rheoliadau i ragnodi rheolau manwl sy'n ymwneud â cheisiadau, a cheisiadau adnewyddu, awdurdodi bwyd/bwyd anifeiliaid GM.

Bydd y Rheoliadau hyn hefyd yn cywiro awdurdodiadau bwyd/bwyd anifeiliaid GM unigol yr UE a ddargedwir i sicrhau eu bod yn parhau'n ddilys yng nghyd-destun y DU, ac y gallant barhau i gael eu rhoi ar farchnad y DU ar ôl ymadael â'r UE.

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol, sy'n nodi effaith bob diwygiad yma: <https://beta.parliament.uk/work-packages/I01jC6I6>

Pam rhoddwyd caniatâd

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru/ASB Cymru a Llywodraeth y DU (ASB y DU) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai creu OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud heb fod angen. Bydd cydsynio i OS ar gyfer y DU i gyd yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae ASB Cymru/Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol fod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**GWEINIDOGION Y DU YN GWEITHREDU MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**93 - Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig
(Diwygio ac ati.) (Ymadael â'r UE) 2019**

Wedi'u gosod yn Senedd y DU: 4 Chwefror 2019

Sifftio

Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU?	Na
Y weithdrefn:	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Dd/B
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Nid yw'n hysbys
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Dd/B
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 17
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Nid yw'n ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Dd/B
Y weithdrefn	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Nid yw'n hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Nid yw'n hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Nid yw'n hysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir i gywiro diffygion sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE: Rheoliad (CE) Rhif 1829/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig (GM); Rheoliad (CE) Rhif 641/2004 ar reolau manwl ar gyfer ceisiadau i awdurdodi bwyd a bwyd anifeiliaid GM newydd, rhoi gwybod am y cynhyrchion GM presennol a phresenoldeb digwyddiadol neu na ellir ei osgoi o ddeunydd GM sydd wedi cael gwerthusiad risg ffafriol; a 68 Penderfyniad gan y Comisiwn sy'n awdurdodi rhoi bwyd a/neu fwyd anifeiliaid GM ar y farchnad, neu sy'n tynnu'n ôl awdurdodaeth o'r fath, ac sy'n darparu'r trefniadau pontio a

fydd yn eu lle pan fydd y DU yn ymadael â'r UE. Mae'r offeryn hwn hefyd yn dirymu Rheoliad (CE) Rhif 1981/2006 ar reolau manwl ar labordy ymchwil y Gymuned ar gyfer organebau GM, a fydd yn ddiangen yn sgil ymadawiad y DU â'r UE.

Bydd y Rheoliadau yn gwneud cywiriadau technegol fel dileu cyfeiriadau at sefydliadau'r UE ac Aelod-wladwriaethau eraill. Byddant hefyd yn newid y cyfeiriad at gofrestr yr UE o fwyd/bwyd anifeiliaid GM awdurdodedig i fod yn gyfeiriad at gofrestr weinyddol yn y DU, gan ddiffinio 'trydydd gwledydd' fel unrhyw wlad y tu allan i'r DU.

Bydd y gwelliannau mwyaf sylweddol yn:

- trosglwyddo cyfrifoldebau sy'n perthyn i Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) i'r "Awdurdod Diogelwch Bwyd" (yr ASB yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a Safonau Bwyd yr Alban). Ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid GM, bydd hyn yn cynnwys cynnal asesiadau risg a llunio safbwyntiau gwyddonol ar geisiadau am ganiatâd bwyd/bwyd anifeiliaid GM;
- diwygio cyfeiriadau at labordai GM a rhwydweithiau labordai i gyfeirio at Labordy Cyfeirio y DU;
- trosglwyddo swyddogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru er mwyn eu galluogi i, neu fynnu eu bod yn:
 - pennu a yw bwyd neu fwyd anifeiliaid yn dod o fewn cwmpas y gyfraith UE berthnasol sy'n cael ei chadw;
 - penderfynu a ddylid cymeradwyo ceisiadau ar gyfer rhoi organebau GM newydd ar y farchnad;
 - addasu, atal neu ddiddymu awdurdodiadau mewn amgylchiadau eithriado; a
 - gwneud rheoliadau i ddiwygio elfennau nad ydynt yn hanfodol o gyfraith yr UE a ddargedwir, er enghraifft i ystyried datblygiadau newydd mewn gwyddoniaeth, a gwneud rheoliadau i ragnodi rheolau manwl sy'n ymwneud â cheisiadau, a cheisiadau adnewyddu, awdurdodi bwyd/bwyd anifeiliaid GM.

Bydd y Rheoliadau hyn hefyd yn cywiro awdurdodiadau bwyd/bwyd anifeiliaid GM unigol yr UE a ddargedwir i sicrhau eu bod yn parhau'n ddilys yng nghyd-destun y DU, ac y gallant barhau i gael eu rhoi ar farchnad y DU ar ôl ymadael â'r UE.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 5 Chwefror 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

- nid yw'r datganiad yn crybwyll bod y Rheoliadau'n diwygio'r penderfyniadau a ganlyn:
 - Penderfyniad y Comisiwn 2007/702/EC;

- Penderfyniad y Comisiwn 2010/419/EU; a
- Phenderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2016/1685.
-

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion sylweddol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau'r Rheolaethau Swyddogol ar gyfer Bwyd, Bwyd Anifeiliaid ac Iechyd a Lles Anifeiliaid (Diwygio ac ati.) (Ymadael â'r UE) 2019

DYDDIAD 5 Chwefror 2019

GAN Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau'r Rheolaethau Swyddogol ar gyfer Bwyd, Bwyd Anifeiliaid ac Iechyd a Lles Anifeiliaid (Diwygio ac ati.) (Ymadael â'r UE) 2019

Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio

- Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i wirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau iechyd a lles anifeiliaid
- Penderfyniad y Comisiwn 2006/677 yn pennu'r canllawiau sy'n gosod meini prawf ar gyfer cynnal archwiliadau o dan Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar reolaethau swyddogol i wirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau iechyd a lles anifeiliaid
- Penderfyniad y Comisiwn 2008/654 ar ganllawiau i gynorthwyo Aelod-wladwriaethau wrth baratoi'r adroddiad blynyddol ar y cynllun rheoli cenedlaethol amflwydd integredig sengl y darperir ar ei gyfer yn Rheoliad (CE) Rhif 882/2004
- Rheoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion.

Y gyfraith UE sy'n cael ei dirymu

- Rheoliad (UE) Rhif 415/2013 o 6 Mai 2013 sy'n pennu cyfrifoldebau a thasgau ychwanegol ar gyfer labordai ymchwil yr UE ar gyfer y gynddaredd (*rabies*), twbercwlosis buchol ac iechyd gwenyn, sy'n diwygio Rheoliad (CE) Rhif 737/2008 ac yn diddymu Rheoliad (UE) Rhif 87/201.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Bydd yr OS hwn yn cryfhau pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru. Bydd yn trosglwyddo pwerau'r Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys swyddogaethau rheoleiddio, o dan Rheoliad 882/2004 i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru. Bydd hyn yn eu galluogi nhw i lunio rheoliadau, yn ddarostyngedig i ddirymiad trwy benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol,

ar faterion gan gynnwys pennu mathau o fwyd a bwyd anifeiliaid y mae'n rhaid iddynt fod yn destun ragor o reolaethau mewnfario, y gwiriadau y mae'n rhaid eu cynnal ar fwyd a bwyd anifeiliaid i'w hallfario, rhagnodi ffurflen ar gyfer tystysgrifau allfario o drydydd gwledydd a rhagnodi amodau mewnfario penodol. Bydd swyddogaethau nad ydynt yn rhai deddfwriaethol yn cynnwys sefydlu canllawiau ar gyfer rheolaethau swyddogol, paratoi ac adolygu cynllun rheoli cenedlaethol ac adrodd ar archwiliadau ar reolaethau swyddogol. Ni fydd yr OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Diben y diwygiadau

Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion sy'n deillio o'r DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn neddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n pennu'r rheolaethau swyddogol a gyflawnir i wirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, a rheolau iechyd a lles anifeiliaid. Mae deddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn nodi'r rheolaethau y mae'n rhaid eu gweithredu (yn bennaf gan awdurdodau cymwys dynodedig) i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid a rheolau iechyd a lles anifeiliaid. Gallai'r rhain gynnwys arolygu, samplu, monitro, archwilio busnesau bwyd neu reolaethau arbenigol eraill.

Bydd y Rheoliadau'n gwneud cywiriadau technegol megis cael gwared ar gyfeiriadau at sefydliadau'r UE ac Aelod-wladwriaethau eraill a bydd yn diffinio 'trydydd gwledydd' fel unrhyw wlad y tu allan i'r DU.

Mae'r prif gywiriadau i'w gwneud gan y Rheoliadau hyn yn cynnwys trosglwyddo swyddogaethau'r Comisiwn, gan gynnwys swyddogaethau llunio rheoliadau, o dan gyfraith yr UE sy'n uniongyrchol berthnasol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru. Bydd y rhain yn bwerau i lunio rheoliadau ar gyfer cyflawni rheolaethau swyddogol ar fwyd a bwyd anifeiliaid, gan gynnwys:

- pennu'r mathau o fwyd a bwyd anifeiliaid y mae'n rhaid iddynt fod yn destun ragor o reolaethau mewnfario,
- y gwiriadau y mae'n rhaid eu cynnal ar fwyd a bwyd anifeiliaid i'w hallfario,
- rhagnodi ffurflen ar gyfer tystysgrifau allfario o drydydd gwledydd, a
- rhagnodi amodau mewnfario penodol.

Bydd yr OS yn gwneud mân ddiwygiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau i fod yn ymarferol heb wneud unrhyw newid sylweddol i lefelau diogelu iechyd pobl nac anifeiliaid neu i safon uchel y bwyd a bwyd anifeiliaid y mae defnyddwyr yn ei disgwyl o gynhyrchion a gynhyrchir yn ddomestig a chynhyrchion a fewnforir.

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol, sy'n nodi effaith bob diwygiad yma: <https://beta.parliament.uk/work-packages/ShVLCeCF>

Pam rhoddwyd caniatâd

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru/ASB Cymru a Llywodraeth y DU (ASB y DU) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai creu OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud heb fod angen. Bydd cydsynio i OS ar gyfer ymddiriedolaethau a bod un fframwaith deddfwriaethol ar

draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae ASB Cymru/Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol fod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

UK MINISTERS ACTING IN DEVOLVED AREAS

94 - The Official Controls for Feed, Food and Animal Health and Welfare (Amendment etc.) (EU Exit) Regulations 2019

Laid in the UK Parliament: 4 February 2019

Sifting

Subject to sifting in UK Parliament?	No
Procedure:	Affirmative
Date of consideration by the House of Commons European Statutory Instruments Committee	N/A
Date of consideration by the House of Lords Secondary Legislation Scrutiny Committee	Not known
Date sifting period ends in UK Parliament	N/A
Written statement under SO 30C:	Paper 19
SICM under SO 30A (because amends primary legislation)	Not required

Scrutiny procedure

Outcome of sifting	N/A
Procedure	Affirmative
Date of consideration by the Joint Committee on Statutory Instruments	Not known
Date of consideration by the House of Commons Statutory Instruments Committee	Not known
Date of consideration by the House of Lords Secondary Legislation Scrutiny Committee	Not known

Commentary

These Regulations are proposed to be made by the UK Government pursuant to section 8 (1) of the European Union (Withdrawal) Act 2018.

These Regulations amend retained EU law relating to official controls on food and feed to ensure its operability following the UK's departure from the EU. The Regulations are intended to protect public health, animal health and animal welfare whilst providing continuity for business operators and trade. Official controls legislation sets rules and operational standards for the verification of food and feed law by competent authorities in the United Kingdom such as the Food Standards Agency (FSA) and the Animal and Plant Health Agency (APHA). This instrument amends references to EU institutions and systems in order that the legislation is operable in the United Kingdom following departure from the EU.

Legal Advisers agree with the statement laid by the Welsh Government dated 5th February 2019 regarding the effect of these Regulations.

The above summary and the content of the Explanatory Memorandum to these Regulations confirm their effect.

Legal Advisers do not consider that any significant issues arise under paragraph 8 of the Memorandum on the European Union (Withdrawal) Bill and the Establishment of Common Frameworks in relation to these Regulations.

Legal Advisers have not identified any legal reason to seek a consent motion under Standing Order 30A.10 in relation to these Regulations.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Lefelau Uchaf o Halogiad Ymbelydrol a Ganiateir) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
DYDDIAD	5 Chwefror 2019
GAN	Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Lefelau Uchaf o Halogiad Ymbelydrol a Ganiateir) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir sy'n cael ei diwygio

- Rheoliad y Cyngor Ewropeaidd (Euratom) 2016/52 sy'n pennu'r lefelau uchaf o halogiad ymbelydrol a ganiateir mewn bwyd a bwyd anifeiliaid yn dilyn damwain niwclear neu unrhyw achos arall o argyfwng radiolegol.

Unrhyw effaith y gall yr Offeryn Statudol (OS) ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Bydd yr OS hwn yn cryfhau pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru. Bydd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, y mae'n rhaid ei arfer pe bai damwain niwclear neu argyfwng radiolegol arall, i wneud rheoliadau i bennu'r lefelau uchaf o halogiad ymbelydrol a ganiateir mewn bwyd a/neu fwyd anifeiliaid o'r ardal dan sylw. Bydd y rheoliadau yn ddarostyngedig i ddirymiad trwy benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol. Ni fydd yr OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Diben y diwygiadau

Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion, sy'n deillio o'r Deyrnas Unedig (DU) yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, yn neddfwriaeth yr UE Rheoliad (UE) Rhif 2016/52 sy'n pennu'r lefelau uchaf o halogiad ymbelydrol a ganiateir mewn bwyd a bwyd anifeiliaid yn dilyn damwain niwclear neu unrhyw achos arall o argyfwng radiolegol.

Mae Rheoliad 2016/52 yn rhoi pŵer i'r Comisiwn fabwysiadu Rheoliadau Gweithredu. Byddai'r Rheoliadau Gweithredu yn gwahardd bwyd a bwyd anifeiliaid o ardal lle cafwyd damwain niwclear neu argyfwng radiolegol rhag cyrraedd y farchnad yn yr UE os nad yw'n cydymffurfio â'r lefelau uchaf o ymbelydredd a ganiateir a nodir yn y Rheoliadau Gweithredu hynny. Gallai hyn fod ar gyfer categori penodol o fwyd neu fwyd anifeiliaid.

Bydd y Rheoliadau cywiro hyn yn diwygio Rheoliad 2016/52. Bydd hyn yn golygu, yn hytrach na'i gwneud hi'n ofynnol i'r Comisiwn wneud Rheoliadau Gweithredu yn achos

damwain niwclear, y bydd dyletswydd yn cael ei rhoi ar Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru, i wneud rheoliadau i bennu'r lefelau uchaf o ymbelydredd mewn bwyd a bwyd anifeiliaid o'r ardal yr effeithiwyd arni.

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol, sy'n nodi effaith bob diwygiad yma:
<https://beta.parliament.uk/work-packages/qpRnR5nO>

Pam rhoddwyd caniatâd

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru/ASB Cymru a Llywodraeth y DU (ASB y DU) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai creu OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud heb fod angen. Bydd cydsynio i OS ar gyfer y DU i gyd yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae ASB Cymru/Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol fod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**GWEINIDOGION Y DU YN GWEITHREDU MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**95 - Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Lefelau Uchaf o Halogiad
Ymbelydrol a Ganiateir) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

Wedi'u gosod yn Senedd y DU: 4 Chwefror 2019

Sifftio

Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU?	Na
Y weithdrefn:	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Dd/B
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Nid yw'n hysbys
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Dd/B
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 21
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Nid yw'n ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Dd/B
Y weithdrefn	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Nid yw'n hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Nid yw'n hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Nid yw'n hysbys

Sylwadau

Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro diffygion yn Rheoliad y Cyngor (Euratom) sy'n gosod y lefelau uchaf o halogiad ymbelydrol a ganiateir mewn bwyd a bwyd anifeiliaid yn dilyn damwain niwclear neu unrhyw achos arall o argyfwng radiolegol, o ganlyniad i ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Rheoliadau yn gymwys i'r DU gyfan.

Ar hyn o bryd, pe bai damwain niwclear neu argyfwng radiolegol, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gyfrifol am wneud rheoliadau i osod y lefelau uchaf posibl o ymbelydredd a ganiateir mewn bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n deillio o'r ardal yr effeithiwyd arni. Ymgynghorir ar hyn o bryd â grŵp o

arbenigwyr, a sefydlwyd o dan Erthygl 31 o Gytuniad Euratom, ar gyfer asesu risg i iechyd wrth adolygu'r lefelau uchaf o halogiad ymbelydrol a ganiateir a'u gweithredu.

Yn dilyn gadael yr UE, effaith y Rheoliadau hyn yw bod Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am y swyddogaethau hyn mewn perthynas â Chymru. Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 5 Chwefror 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig. Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion sylweddol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Mewnforion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiad) (Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd) 2019
DYDDIAD	6 Chwefror 2019
GAN	Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Mewnforion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiad) (Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd) 2019

Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir sy'n cael ei diwygio

- Rheoliad (CE) Rhif 669/2009 sy'n gweithredu Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y lefel gynyddol o reolaethau swyddogol ar fewnforion bwyd anifeiliaid penodol a bwyd nad yw'n dod o anifeiliaid ac sy'n diwygio Penderfyniad 2006/504/EC.
- Rheoliad (UE) Rhif 284/2011 sy'n gosod amodau penodol a gweithdrefnau manwl ar gyfer mewnforio offer cegin plastig polyamid a melamin sy'n deillio, neu'n cael eu hanfon o Weriniaeth Pobl Tsieina a Rhanbarth Gweinyddol Arbennig Hong Kong, Tsieina.
- Rheoliad (UE) Rhif 884/2014 sy'n gosod amodau arbennig sy'n rheoli mewnforio bwyd anifeiliaid a bwyd penodol gan drydydd gwledydd penodol oherwydd risg halogiad gan afflatocsinau ac yn diddymu Rheoliad (CE) Rhif 1152/2009.
- Rheoliad (UE) 2018/1660 sy'n gosod amodau arbennig sy'n rheoli mewnforio bwyd penodol nad yw'n dod o anifeiliaid o drydydd gwledydd penodol oherwydd risg halogiad â gweddillion plaladdwyr, gan ddiwygio Rheoliad (CE) Rhif 669/2009 ac yn diddymu Rheoliad Gweithredu (UE) Rhif 885/2014.
- Rheoliad (UE) 2015/175 sy'n gosod amodau arbennig sy'n berthnasol i fewnforio gwm guar sy'n deillio, neu'n cael ei anfon o India oherwydd risg halogiad gan pentachlorophenol a diocsinau.
- Rheoliad (UE) 2015/943 ar fesurau argyfwng yn atal mewnforion ffa sych o Nigeria ac yn diwygio Atodiad I Rheoliad (CE) Rhif 669/2009.
- Rheoliad (UE) 2015/949 sy'n cymeradwyo gwiriadau cyn allforio ar fwyd penodol gan drydydd gwledydd penodol o ran presenoldeb mycotocsinau penodol;
- Rheoliad (UE) 2017/186 sy'n pennu'r amodau arbennig sy'n berthnasol i gyflwyno llwythi o drydydd gwledydd penodol i'r Undeb oherwydd halogiad microbiolegol a diwygio Rheoliad (CE) Rhif 669/2009.

- Penderfyniad 2011/884/UE ar fesurau argyfwng ynghylch reis wedi'i addasu'n enetig heb ei awdurdodi mewn cynhyrchion reis sy'n deillio o Tsieina ac yn diddymu Penderfyniad 2008/289/EC.
- Penderfyniad 2014/88/UE sy'n atal mewnfurion dros dro o fwyd sy'n cynnwys dail betel o Fangladesh.

Unrhyw effaith y gall yr Offeryn Statudol (OS) ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Bydd yr OS hwn yn cryfhau pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru. Bydd yn trosglwyddo'r pwerau a'r dyletswyddau a roddir a'u gosod ar hyn o bryd ar y Comisiwn Ewropeaidd i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru. Bydd y swyddogaethau hyn, ymhlith pethau eraill, yn gofyn i roi gwybod i Weinidogion Cymru am adroddiadau sy'n ymwneud â gwiriadau o lwythi penodol sy'n dod i mewn i Gymru trwy Fannau Mynediad Dynodedig, Mannau Mewnforio Dynodedig a Mannau Cyflwyno Cyntaf. Bydd yr OS hefyd yn darparu bod gan Weinidogion Cymru wahanol bwerau a dyletswyddau ac a osodwyd yn flaenorol gan ddeddfwriaeth yr UE ar yr 'Aelod Wladwriaeth' generig. Bydd hyn, ymhlith pethau eraill, yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi Mannau Cyflwyno Cyntaf a chynnal rhestrau o'r manau hynny sydd ar gael yn gyhoeddus ac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gasglu ffioedd mewn perthynas ag unrhyw gynnydd mewn rheolaethau swyddogol sy'n ofynnol o dan Reoliad (CE) Rhif 669/2009. Ni fydd yr OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Diben y diwygiadau

Mae'r corff hwn o ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir, fel y'i diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn nodi'r sail gyfreithiol ar gyfer rheolaethau mewnfurio domestig yn y DU ar gyfer y mwyafrif o fwyd nad yw'n dod o anifeiliaid ac yn sicrhau bod yr holl bwerau cywir yn eu lle i gynnal system reoli sy'n ymatebol i fgythiadau sy'n dod i'r amlwg.

Bydd y Rheoliadau hyn yn gwneud amryw welliannau technegol gan gynnwys:

- Hefgor cyfeiriadau at sefydliadau'r UE ac Aelod-wladwriaethau eraill a diwygio'r diffiniad o 'fan cyflwyno cyntaf', 'mannau mewnfurio dynodedig' a 'thrydedd gwlad'.
- Diwygio'r gofyniad bod rhaid llunio dogfennau mynediad, datganiadau a thystysgrifau iechyd yn 'iaith swyddogol yr Aelod-wladwriaeth neu yn un o ieithoedd swyddogol yr Aelod-wladwriaeth' fel bod rhaid iddynt gael eu cyflwyno yn Saesneg neu yn Gymraeg a Saesneg.
- Gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Diogelwch Bwyd (mewn perthynas â Chymru, yr ASB) gynnal a gwneud rhestrau cyhoeddus o Fannau Mynediad Dynodedig a Mannau Mewnforio Dynodedig.

Mae'r diwygiadau mwy sylweddol yn ymwneud â'r swyddogaethau a roddwyd yn flaenorol, yr 'Aelod-Wladwriaethau' a'r Comisiwn Ewropeaidd, yn y drefn honno. Dyma grynhoi'r newidiadau arfaethedig mewn perthynas â Chymru:

Trosglwyddo Swyddogaethau Aelod-wladwriaeth:

Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth yr UE sy'n ymwneud â mewnforio bwyd nad yw'n dod o anifeiliaid yn rhoi pwerau ar 'Aelod-wladwriaethau' mewn perthynas â swyddogaethau penodol, y mae'r DU wedi'u dirprwyo'n flaenorol i'r ASB. Yn dilyn y DU yn ymadael â'r UE, bydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn cael ei diwygio i ddarparu'r swyddogaethau canlynol i Weinidogion Cymru:

- casglu ffioedd o ganlyniad i gynnydd mewn rheolaeth swyddogol fel y darperir ar ei gyfer yn Rheoliad (UE) Rhif 669/2009.
- dynodi manau cyflwyno cyntaf mewn perthynas ag offer cegin plastig o Hong Kong a Tsieina.
- cyhoeddi rhestr gyfoes o Fannau Cyflwyno Cyntaf a Mannau Mewnforio Dynodedig.

Trosglwyddo Swyddogaethau'r Comisiwn;

Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth yr UE yn trosglwyddo swyddogaethau i'r Comisiwn Ewropeaidd. Ar ôl i'r DU Ymadael â'r UE, caiff cyfraith yr UE a ddargedwir ei diwygio i ddarparu'r swyddogaethau hyn i Weinidogion Cymru, gan gynnwys;

- nodi bod yn rhaid i awdurdodau cymwys (awdurdodau lleol neu awdurdodau iechyd porthladdoedd) anfon adroddiadau ar lwythi penodedig i Weinidogion Cymru a'r ASB.
- Gwneud yn ofynnol i awdurdodau cymwys roi gwybod i Weinidogion Cymru yng Nghymru a'r ASB os bydd diffyg cydymffurfio yn cael ei nodi o ganlyniad i ddadansoddiad labordy a wnaed yn unol â Rheoliad (UE) Rhif 284/2011.

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol, sy'n nodi effaith bob diwygiad yma:

<https://beta.parliament.uk/work-packages/9Zv0Fn2Y>

Pam rhoddwyd caniatâd

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru/ASB Cymru a Llywodraeth y DU (ASB y DU) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai creu Offerynnau Statudol ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud heb fod angen. Bydd cydsynio i OS ar gyfer y DU i gyd yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae ASB Cymru/Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**GWEINIDOGION Y DU YN GWEITHREDU MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**96 - Rheoliadau Mewnforion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiad)
(Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd) 2019**

Wedi'u gosod yn Senedd y DU: 5 Chwefror 2019

Sifftio

Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU?	Na
Y weithdrefn:	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Dd/B
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Nid yw'n hysbys
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Dd/B
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 23
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Nid yw'n ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Dd/B
Y weithdrefn	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Nid yw'n hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Nid yw'n hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Nid yw'n hysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae Rheoliadau Mewnforion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiad) (Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd) 2019 yn diwygio deddfwriaeth Ewropeaidd yn ymwneud â rheolaethau mewnforio ar fwyd a bwyd anifeiliaid, o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig, i sicrhau eu bod yn gweithredu ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae deddfwriaeth mewnforion yn gosod rheolau ar gyfer dilysu cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid gan awdurdodau cymwys yn y DU megis yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA).

Mae'r offeryn hwn yn diwygio cyfeiriadau at sefydliadau a systemau Ewropeaidd er mwyn bod yn ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu yn y DU

yn dilyn ar ôl ymadael â'r UE. Y bwriad yw darparu dilyniant i weithredwyr a masnach wrth amddiffyn iechyd y cyhoedd.

Nid oes gan y Rheoliadau unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ond byddant yn cryfhau pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru drwy drosglwyddo pwerau a dyletswyddau sydd wedi'u rhoi a'u gosod ar hyn o bryd ar y Comisiwn Ewropeaidd i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 6 Chwefror 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn. Rydym yn croesawu'n arbennig eglurder y datganiad hwn, a'r eglurhad clir a roddir ynghylch yr effaith ar bwerau gweithredol Gweinidogion Cymru.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion sylweddol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygiad) (Ymadael i â'r UE) 2019
DYDDIAD	6 Chwefror 2019
GAN	Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygiad) (Ymadael i â'r UE) 2019

Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio

- Rheoliad (CE) Rhif 1935/2004 ar ddeunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd ac yn diddymu Cyfarwyddbau 80/590/EEC a 89/109/EEC
- Rheoliad (CE) Rhif 1895/2005 o Reoliad (CE) Rhif 1935/2004 ar ddeunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd ac yn diddymu Cyfarwyddbau 80/590/EEC ac 89/109/EEC
- Rheoliad (CE) Rhif 1895/2005 ar gyfyngu defnydd deilliadau epocsi penodol mewn deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd
- Rheoliad (CE) Rhif 2023/2006 ar arfer gweithgynhyrchu da ar gyfer deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd
- Rheoliad (CE) Rhif 450/2009 ar ddeunyddiau ac eitemau gweithredol a deallus y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd
- Rheoliad (CE) Rhif 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd
- Rheoliad (CE) Rhif 282/2008 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig wedi'u hailgylchu y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd a diwygio Rheoliad (CE) Rhif 2023/2006
- Rheoliad (UE) 2018/213 ar ddefnyddio bisphenol A mewn farneisiau a chaenau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd a diwygio Rheoliad (UE) Rhif 10/2011 o ran defnyddio'r sylwedd hwnnw mewn deunyddiau plastig â ddaw i gysylltiad â bwyd.

Unrhyw effaith y gall yr Offeryn Statudol (OS) ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Bydd yr OS hwn yn cryfhau pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru. Bydd yn trosglwyddo pwerau cyfredol y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys swyddogaethau gwneud rheoliadau, i Weiniogion Cymru mewn perthynas â Chymru. Ymhlith pethau eraill, bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i:

- benderfynu a ddylid cymeradwyo ceisiadau am ddeunyddiau ac eitemau â ddaw i gysylltiad â bwyd i'w gosod ar y farchnad yng Nghymru ai peidio.
- awdurdodi prosesau ailgylchu.
- cyflwyno mesurau penodol ar gyfer atal dros dro neu gyfyngu ar geisiadau sylweddau wedi'u hawdurdodi.

Bydd pwerau gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i ddirymiad drwy benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol. Ni fydd yr OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Diben y diwygiadau

Mae'r OS yn ymwneud â chyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir ar 'ddeunyddiau â ddaw i gysylltiad â bwyd'. Dyma'r deunyddiau a'r erthyglau sydd naill ai:

- â'r bwriad iddynt ddod i gysylltiad â bwyd;
- eisoes mewn cysylltiad â bwyd;
- yn gallu, yn rhesymol, ddod i gysylltiad â bwyd neu drosglwyddo eu hansoddau i fwyd dan ddefnydd arferol neu ragweladwy.

Mae hyn yn cynnwys cyswllt uniongyrchol neu anuniongyrchol, ac mae enghreifftiau'n cynnwys cynwysyddion ar gyfer cludo bwyd, peiriannau prosesu bwyd, deunydd pecynnu, offer cegin a llestri bwrdd.

Bydd y Rheoliadau cywiro yn gwneud cywiriadau technegol amrywiol, sy'n cynnwys hepgor cyfeiriadau at sefydliadau'r UE, "Cymuned", "Aelod-wladwriaethau" a "y Comisiwn". Bydd yr holl ddeunyddiau â ddaw i gysylltiad â bwyd a ddefnyddir yn y DU cyn y diwrnod gadael yn parhau i gael eu caniatáu ar ôl y diwrnod ymadael, a bydd yr holl amodau sy'n gysylltiedig â'u defnyddio yn cael eu cadw.

Fel newid mwy sylweddol, bydd y Rheoliadau diwygiedig, mewn perthynas â Chymru, yn trosglwyddo swyddogaethau Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) i'r ASB. Mae'r swyddogaethau'n cynnwys mabwysiadu a chyhoeddi barn wyddonol, a darparu cyngor gwyddonol i Weinidogion Cymru yn eu rôl fel rheolwyr risg (gweler isod) ar ddiogelwch deunyddiau â ddaw i gysylltiad â bwyd a phrosesau cysylltiedig (e.e. ailgylchu plastigau).

Bydd y Rheoliadau diwygiedig hefyd yn trosglwyddo swyddogaethau'r Comisiwn, gan gynnwys swyddogaethau gwneud rheoliadau o dan gyfraith yr UE sy'n berthnasol i Weinidogion Cymru yn uniongyrchol. Dyma'r pwerau a'r dyletswyddau dan sylw gyda'r Rheoliad a'r Erthyglau priodol:

Rheoliad 1935/2004

Y pŵer i ragnodi rheolau penodol ar gyfer grwpiau o ddeunyddiau ac eitemau (er enghraifft, awdurdodi rhestr o sylweddau i'w defnyddio wrth weithgynhyrchu deunyddiau ac eitemau) (Erthygl 5), y pŵer i awdurdodi sylweddau newydd (Erthygl 11), diwygio awdurdodiad eitemau rhestredig (Erthygl 12), neu gyflwyno mesurau penodol ar gyfer atal dros dro neu gymhwyso cyfyngedig y darpariaethau (Erthygl 18).

Rheoliad 10/2011

Y pŵer i ragnodi diweddariadau i'r rhestr o sylweddau plastig awdurdodedig (Erthygl 5), gan ddiweddarau'r rhestr dros dro o ychwanegion (Erthygl 7), a rhagnodi darpariaethau penodol ar gyfer deunyddiau ac eitemau aml-haen ac aml-ddeunydd (Erthygl 14).

Rheoliad 282/2008

Y pŵer i ragnodi awdurdodi'r prosesau ailgylchu (Erthygl 6) a rhagnodi diwygiadau i awdurdodi proses ailgylchu (Erthygl 8).

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol, sy'n nodi effaith bob diwygiad yma:

<https://beta.parliament.uk/work-packages/wzl0ix8B>

Pam rhoddwyd caniatâd

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru/ASB Cymru a Llywodraeth y DU (ASB y DU) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai creu Offerynnau Statudol ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud heb fod angen. Bydd cydsynio i OS ar gyfer y DU i gyd yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae ASB Cymru/Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

UK MINISTERS ACTING IN DEVOLVED AREAS

97 - The Materials and Articles in Contact with Food (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019

Laid in the UK Parliament: 5 February 2019

Sifting

Subject to sifting in UK Parliament?	No
Procedure:	Affirmative
Date of consideration by the House of Commons European Statutory Instruments Committee	N/A
Date of consideration by the House of Lords Secondary Legislation Scrutiny Committee	Not known
Date sifting period ends in UK Parliament	N/A
Written statement under SO 30C:	Paper 25
SICM under SO 30A (because amends primary legislation)	Not required

Scrutiny procedure

Outcome of sifting	N/A
Procedure	Affirmative
Date of consideration by the Joint Committee on Statutory Instruments	Not known
Date of consideration by the House of Commons Statutory Instruments Committee	Not known
Date of consideration by the House of Lords Secondary Legislation Scrutiny Committee	Not known

Commentary

These Regulations are proposed to be made by the UK Government pursuant to section 8 of the European Union (Withdrawal) Act 2018.

EU legislation regulates the safety of all materials and articles intended to come into contact with food, collectively known as food contact materials. This includes plastic bottles and containers, kitchen appliances, cutlery and crockery.

The objective of these Regulations is to maintain existing laws and fix the inoperabilities in retained direct EU legislation related to materials and articles in contact with food. This instrument removes from retained EU legislation the tasks and roles assigned to the European Commission, its committees and the European Food Safety Authority as these will no longer be relevant after the UK leaves the European Union.

Legal Advisers agree with the statement laid by the Welsh Government dated 6 February 2019 regarding the effect of these Regulations.

The above summary and the content of the Explanatory Memorandum to these Regulations confirm their effect.

Legal Advisers do not consider that any significant issues arise under paragraph 8 of the Memorandum on the European Union (Withdrawal) Bill and the Establishment of Common Frameworks in relation to these Regulations.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Diwygiad) (Ymadael â'r UE) 2019

DYDDIAD 6 Chwefror 2019

GAN Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Diwygiad) (Ymadael â'r UE) 2019

Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio

- Rheoliad (CE) Rhif 1831/2003 ar ychwanegion i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid
- Rheoliad (CE) Rhif 183/2005 sy'n gosod gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid
- Rheoliad (CE) Rhif 378/2005 ar reolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad (CE) Rhif 1831/2003 o ran dyletswyddau a thasgau Labordy Cyfeirio Cymunedol ynghylch ceisiadau am awdurdodiadau ychwanegion bwyd anifeiliaid
- Rheoliad (CE) Rhif 429/2008 ar reolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad (CE) Rhif 1831/2003 mewn perthynas â pharatoi a chyflwyno ceisiadau ac asesu ac awdurdodi ychwanegion bwyd anifeiliaid
- Rheoliad (CE) Rhif 152/2009 sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheolaeth swyddogol bwyd anifeiliaid
- Rheoliad (CE) Rhif 767/2009 ar osod bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnyddio, sy'n diwygio'r (CE) Rhif 1831/2003;
- Rheoliad (UE) Rhif 892/2010 ar statws cynhyrchion penodol o ran ychwanegion bwyd anifeiliaid o fewn cwrpas Rheoliad (CE) Rhif 1831/2003
- Rheoliad (UE) Rhif 619/2011 sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheolaeth swyddogol bwyd anifeiliaid o ran presenoldeb deunydd wedi'i addasu'n enetig y mae gweithdrefn awdurdodiad ar ei chyfer ar y gweill neu fod awdurdodiad ar ei chyfer wedi dod i ben;
- Rheoliad (UE) Rhif 68/2013 ar Gatalog o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid
- Rheoliad (UE) 2015/786 yn diffinio meini prawf derbyn ar gyfer prosesau dadwenwyno cynhyrchion a fwriedir ar gyfer bwyd anifeiliaid fel y darperir ar ei chyfer yng Nghyfarwyddeb 2002/32/EC

Unrhyw effaith y gall yr Offeryn Statudol (OS) ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Bydd yr OS hwn yn cryfhau pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru. Bydd yn trosglwyddo pwerau cyfredol y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys swyddogaethau gwneud rheoliadau,

i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru, ymhlith pethau eraill i:

- awdurdodi ychwanegion bwyd newydd;
- cyfyngu neu wahardd defnyddio rhai deunyddiau mewn bwyd anifeiliaid;
- diwygio gofynion labelu ar gyfer ychwanegion bwyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid;
- diwygio elfennau o gyfraith yr UE nad ydynt yn angenrheidiol (er enghraifft mewn ymateb i ddatblygiadau gwyddonol newydd).

Bydd rheoliadau Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i ddirymiad trwy benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol. Ni fydd yr OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Diben y diwygiadau

Bydd y Rheoliadau'n gwneud cywiriadau technegol megis cael gwared ar gyfeiriadau at sefydliadau'r UE ac Aelod-wladwriaethau eraill a bydd yn diffinio 'trydydd gwledydd' fel 'unrhyw wlad y tu allan i'r DU'. Bydd hefyd yn diwygio'r ddarpariaeth ar gyfer labelu cynwysyddion bwyd anifeiliaid fel bod yn rhaid labelu ychwanegion bwyd yn Saesneg, neu yn Gymraeg a Saesneg.

Fel newid mwy sylweddol, bydd y Rheoliadau, mewn perthynas â Chymru, yn trosglwyddo cyfrifoldebau asesiad risg a gynhaliwyd gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) i'r ASB. Felly, bydd yr ASB yn gyfrifol, ymhlith pethau eraill, am ymgymryd ag asesiadau risg ar gyfer unrhyw geisiadau am awdurdodi cynnyrch fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid a bydd yn cynghori Gweinidogion Cymru ar sail yr asesiadau risg hynny.

Bydd hefyd yn trosglwyddo swyddogaethau'r Comisiwn, gan gynnwys swyddogaethau sy'n gwneud rheoliadau o dan gyfraith yr UE yn uniongyrchol berthnasol, i Weinidogion Cymru yng Nghymru.

Bydd y Rheoliadau yn rhoi pwerau penodol i Weinidogion Cymru:

- Awdurdodi defnydd ychwanegion bwyd anifeiliaid yng Nghymru, yn ogystal â'u hail-awdurdodi, eu haddasu neu eu hatal
- Rhagnodi meini prawf a thargedau microbiolegol ar gyfer hylendid bwyd, yn ogystal â gweithredu systemau rheoli diogelwch bwyd a gofynion hylendid bwyd anifeiliaid ar gyfer busnesau bwyd anifeiliaid
- Gweithio gyda labordai cyfeirio i ail-arolygu ceisiadau os oes angen
- Cyfyngu neu wahardd defnyddio rhai deunyddiau mewn bwyd anifeiliaid
- Diwygio gofynion labelu ar gyfer ychwanegion bwyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid
- Cynnal Catalog o Ddeunyddiau Bwyd
- Gosod dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheolaeth swyddogol bwyd anifeiliaid ar gyfer deunydd wedi'i addasu'n enetig y mae gweithdrefn awdurdodiad ar ei gyfer ar y gweill neu fod awdurdodiad ar ei gyfer wedi dod i ben; a gosod unrhyw fesurau brys
- Gwneud rheoliadau i ddiwygio elfennau nad ydynt yn hanfodol o gyfraith yr UE, er enghraifft ystyried datblygiadau gwyddonol newydd

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol, sy'n nodi effaith bob diwygiad yma:
<https://beta.parliament.uk/work-packages/rZAuhSTC>

Pam rhoddwyd caniatâd

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru/ASB Cymru a Llywodraeth y DU (ASB y DU) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai creu Offerynnau Statudol ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud heb fod angen. Bydd cydsynio i OS ar gyfer y DU i gyd yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae ASB Cymru/Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**GWEINIDOGION Y DU YN GWEITHREDU MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

98 - Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Diwygiad) (Ymadael â'r UE) 2019

Wedi'u gosod yn Senedd y DU: 5 Chwefror 2019

Sifftio

Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU?	Na
Y weithdrefn:	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Dd/B
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Nid yw'n hysbys
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Dd/B
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 27
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Nid yw'n ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Dd/B
Y weithdrefn	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Nid yw'n hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Nid yw'n hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Nid yw'n hysbys

Sylwadau

Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Pwrpas y Rheoliadau hyn yw sicrhau y bydd llyfr statud yn parhau i fod yn weithredol ar y diwrnod gadael, sy'n cynnal parhad mewn perthynas â pholisi a deddfwriaeth bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 6 Chwefror 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn. Mae hefyd yn werth nodi pa mor glir a defnyddiol yw datganiad Llywodraeth Cymru, a pha mor ddefnyddiol yw hynny i'r Pwyllgor. Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig.

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol yn tynnu sylw'r Pwyllgor at y materion canlynol mewn perthynas â pharagraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin. Dywed paragraff 8 (pwyslais wedi'i ychwanegu):

“The UK Government will be able to use powers under clauses 7, 8 and 9 to amend domestic legislation in devolved areas but, as part of this agreement, reiterates the commitment it has previously given that it will not normally do so without the agreement of the devolved administrations. **In any event, the powers will not be used to enact new policy in devolved areas; the primary purpose of using such powers will be administrative efficiency.**”

Mae datganiad Llywodraeth Cymru yn nodi bod y Rheoliadau'n gwneud rhai newidiadau technegol ond eu bod hefyd yn gwneud “newid mwy sylweddol” (h.y. maent yn trosglwyddo swyddogaethau diogelwch bwyd pwysig gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) i'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)).

Ymddengys bod hyn yn torri'r Cytundeb Rhynglywodraethol gan fod Llywodraeth y DU yn defnyddio ei phwerau dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i ddeddfu polisi newydd. Mae trosglwyddo swyddogaethau pwysig o'r EFSA i'r ASB, ni waeth pa mor annadleuol, yn sicr yn ymddangos yn fwy na sicrhau “effeithlonrwydd gweinyddol”.

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Ychwanegion Bwyd, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu (Diwygio ac ati.) (Ymadael â'r UE) 2019
DYDDIAD	6 Chwefror 2019
GAN	Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Ychwanegion Bwyd, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu (Diwygio ac ati.) (Ymadael â'r UE) 2019

Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio

- Rheoliad (CE) Rhif 2065/2003 ar gyflasynnau mwg a ddefnyddir neu a fwriedir i'w defnyddio mewn bwyd neu ar fwyd
- Rheoliad (CE) Rhif 627/2006 sy'n gweithredu Rheoliad (CE) Rhif 2065/2003 o ran meini prawf ansawdd ar gyfer dulliau dadansoddi dilys ar gyfer samplu, adnabod a chymeriadaeth cynhyrchion mwg cynradd
- Rheoliad (UE) Rhif 1321/2013 sy'n sefydlu rhestr yr Undeb Ewropeaidd o gynhyrchion cynradd â chyflasyn mwg awdurdodedig i'w defnyddio mewn bwyd neu ar fwyd a/neu ar gyfer cynhyrchu cyflasynnau mwg deilliadol
- Rheoliad (CE) Rhif 1331/2008 sy'n sefydlu gweithdrefn awdurdodi cyffredin ar gyfer ychwanegion bwyd, ensymau bwyd a chyflasynnau bwyd
- Rheoliad (UE) Rhif 234/2011 sy'n gweithredu Rheoliad (CE) Rhif 1331/2008 sy'n sefydlu gweithdrefn awdurdodi gyffredin ar gyfer ychwanegion bwyd, ensymau bwyd a chyflasynnau bwyd
- Rheoliad (CE) Rhif 1332/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar ensymau bwyd
- Rheoliad (CE) Rhif 1333/2008 ar ychwanegion bwyd
- Rheoliad (UE) Rhif 231/2012 sy'n gosod manylebau ar gyfer ychwanegion bwyd a restrir yn Atodiadau 2 a 3 i Rheoliad (CE) Rhif 1333/2008
- Rheoliad (CE) Rhif 1334/2008 ar gyflasynnau a chynhwysion bwyd penodol gyda nodweddion cyflasynnau i'w defnyddio mewn bwyd ac ar fwyd
- Rheoliad (UE) Rhif 872/2012 sy'n mabwysiadu'r rhestr o sylweddau cyflasynnau a ddarperir ar eu cyfer gan Rheoliad (CE) Rhif 2232/96 a'i chyflwyno yn Atodiad 1 i Rheoliad (CE) Rhif 1334/2008
- Rheoliad (UE) Rhif 873/2012 ar fesurau trosiannol sy'n ymwneud â rhestr yr Undeb Ewropeaidd o gyflasynnau a deunyddiau ffynhonnell a nodir yn Atodiad 1 Rheoliad (CE) Rhif 1334/2008

Y gyfraith UE sy'n cael ei dirymu

- Rheoliad (UE) Rhif 257/2010 yn sefydlu rhaglen ar gyfer ail-werthuso ychwanegion bwyd cymeradwy yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 1333/2008

Unrhyw effaith y gall yr Offeryn Statudol (OS) ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Bydd yr OS hwn yn cryfhau pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru. Bydd yn trosglwyddo pwerau cyfredol y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys swyddogaethau gwneud rheoliadau, i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru, ymhlith pethau eraill i:

- awdurdodi ychwanegion bwyd, cyflasynnau ac ensymau;
- diwygio gofynion labelu ar gyfer y sylweddau hyn;
- diwygio elfennau anghenraid o gyfraith yr UE (er enghraifft mewn ymateb i ddatblygiadau gwyddonol newydd).

Bydd rheoliadau Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i ddirymiad trwy benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol. Ni fydd yr OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Diben y diwygiadau

Bydd y Rheoliadau yn gwneud cywiriadau technegol fel dileu cyfeiriadau at sefydliadau'r UE ac Aelod-wladwriaethau eraill, a byddant yn disodli 'Rhestrau'r Undeb' gyda 'rhestrau domestig' i sicrhau bod y gyfraith yn parhau i fod yn weithredol ar ôl Ymadael â'r UE. Bydd hefyd yn diwygio'r ddarpariaeth sydd ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnwysyddion ar gyfer ychwanegion, cyflasynnau ac ati gael eu labelu yn 'iaith swyddogol Aelod-wladwriaeth' fel bod rhaid i'r label fod yn Saesneg, neu'n Gymraeg a Saesneg ar ôl ymadael.

Fel newid mwy sylweddol, bydd y Rheoliadau cywiro, mewn perthynas â Chymru, yn trosglwyddo cyfrifoldebau asesiad risg a gynhaliwyd gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) i'r ASB. Felly, bydd yr ASB yn gyfrifol am, ymysg pethau eraill, ymgymryd ag asesiadau risg ar gyfer unrhyw geisiadau am ganiatâd cynhyrchion fel ychwanegion bwyd, cyflasynnau ac ati, a bydd yn cynghori Gweinidogion Cymru ar sail yr asesiadau risg hynny.

Bydd y Rheoliadau hefyd yn trosglwyddo swyddogaethau'r Comisiwn, gan gynnwys swyddogaethau sy'n gwneud rheoliadau o dan gyfraith yr UE yn uniongyrchol berthnasol, i Weinidogion Cymru yng Nghymru.

Yn benodol, bydd y Rheoliadau yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru:

- benderfynu a ddylid cymeradwyo ceisiadau am ychwanegion bwyd, ensymau bwyd, cyflasynnau bwyd (gan gynnwys cyflasynnau mwg) i'w gosod ar y farchnad (gan gynnwys ail-awdurdodi ac addasiadau) mewn perthynas â Chymru, yn ogystal ag i ragnodi mesurau gweithredu ar gyfer eu hawdurdodi;
- diwygio gofynion labelu ar gyfer y sylweddau hyn;

<p>Ymhlith pethau eraill, mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gytuno ar reoliadau ynghylch ffurf ac amseriad gwahoddiadau i gofrestru ar y gofrestr etholiadol a sut y dylid cyflwyno gwahoddiadau i gofrestru. Caiff y rheoliadau hefyd ei gwneud yn ofynnol bod ffurflenni cais neu ddogfennau eraill yn cyd-fynd â gwahoddiadau i gofrestru. Hefyd, caiff y rheoliadau roi swyddogaethau ar y Comisiwn Etholiadol. Mae gan y Comisiwn Etholiadol gyfrifoldebau o ran dylunio a threialu rhai ffurflenni. Hefyd, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud rheoliadau o'r fath.</p>	
PAM MAE ANGEN Y RHEOLIADAU	
<p>Mae angen gwneud diwygiadau rheolaidd i'r ffurflenni sy'n gwahodd unigolion i gofrestru ac mae'r Comisiwn Etholiadol eisoes wedi dweud bod is-ddeddfwriaeth yn well mewn achosion o'r fath. Nid oes unrhyw gynigion i ddefnyddio'r pŵer hwn ar hyn o bryd ac mae adran 4 o'r Bil yn pennu'r addasiadau i'r system bresennol ar gyfer rhoi gwahoddiadau i gofrestru i bleidleiswyr, lle mae'r person sy'n cael y gwahoddiad o dan 16 oed. Bwriedir i'r addasiadau hyn ganiatáu i un gwahoddiad gael ei ddefnyddio ar gyfer pob person, ni waeth beth yw ei oed. Fodd bynnag, gan nad yw'r system hon wedi'i threialu, mae'n bosibl y gwelir, ar ôl ei rhoi ar waith, y byddai'n well cael ffurflen gwahoddiad benodol i bobl o dan 16 oed, ac y dylid gwneud newidiadau gweithdrefnol i fynd i'r afael â'u hamgylchiadau arbennig hwy. Felly, ceisir y pŵer hwn i alluogi'r newid hwnnw heb fod angen am ddeddfwriaeth sylfaenol ychwanegol.</p>	
BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU	

Mae'r gyfraith etholiadol yn dechnegol a chymhleth ei natur. Yn ogystal, mae Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau, sy'n ymdrin â'r un pwnc neu bwnc tebyg, yn cael ei ystyried yn yr un cyfnod, ac mae'n bosibl y gallai hynny achosi cymhlethdodau ychwanegol. Ystyrir felly, mai doeth fyddai cael pwerau i ymateb i unrhyw anawsterau annisgwyl y deuir ar eu traws yn ymarferol o ganlyniad i newidiadau ehangach a wneir i'r etholfraint.

Byddai'r pŵer i wneud rheoliadau yn darparu diogelwch i wneud darpariaeth bellach yng ngoleuni unrhyw brofiadau ymarferol sy'n deillio o estyn yr etholfraint i'r grŵp oedran hwn.

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Pŵer i ychwanegu categorïau penodol at y diffiniad o lety diogel
RHAN III O'R BIL	
ADRAN	18
DULL O DDWYN I RYM	Negyddol
DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU	
<p>Mae Adran 18 o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ychwanegu categorïau penodol at y diffiniad o lety diogel ac felly galluogi pobl ifanc sy'n byw yn y categorïau hynny o lety ac mewn amgylchiadau penodol i wneud datganiad o gysylltiad lleol.</p>	
BETH FYDD Y RHEOLIADAU YN EI GYFLAWNI?	
<p>Mae adran 18 yn diwygio adran 7B o Ddeddf 1983 mewn perthynas â chofrestru etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru. Mae Adran 7B yn nodi o dan ba amgylchiadau y caniateir i berson wneud datganiad o gysylltiad lleol. Effaith datganiad o gysylltiad lleol yw y gellir cofrestru datganwyr drwy gyfeirio at gyfeiriad nad yw, o bosibl, yr un lle maent yn byw fel arfer.</p> <p>Mae'r diwygiadau a wneir gan adran 18(2) o'r Bil yn caniatáu i bersonau o dan 18 oed wneud datganiad o gysylltiad lleol lle maent yn derbyn gofal gan awdurdod lleol neu'n cael eu cadw mewn llety diogel.</p> <p>Mae'r pŵer sy'n gwneud rheoliadau yn adran 18 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu categorïau penodol ac amgylchiadau penodol i'r diffiniad o lety diogel. Bydd hyn yn galluogi pobl ifanc sy'n byw mewn llety diogel am resymau lles i wneud datganiad o gysylltiad lleol.</p>	
PAM MAE ANGEN Y RHEOLIADAU	

Bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn darparu hyblygrwydd ac yn galluogi newidiadau i gael eu gwneud i'r mathau penodol o lety diogel ac amgylchiadau penodol sy'n berthnasol o dan yr adran hon.

Byddai angen datblygu rheoliadau o'r fath mewn cysylltiad â'r cymunedau etholiadol a chyfiawnder ac efallai y bydd angen eu diwygio'n rheolaidd. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi dweud eisoes bod is-ddeddfwriaeth yn well o dan yr amgylchiadau hyn.

BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU

Dylai pobl ifanc o Gymru, sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru – gan gynnwys y rhai a roddir mewn llety diogel – allu gwneud datganiad o gysylltiad lleol. Dylai pobl ifanc o Gymru – nad ydynt yn derbyn gofal ond sy'n cael eu rhoi mewn llety diogel am resymau lles – hefyd allu gwneud datganiad o gysylltiad lleol. Bydd y rheoliad yn darparu hyblygrwydd i sicrhau bod gan yr holl bobl ifanc hynny sydd â hawl i bleidleisio ffordd o allu gwneud hynny. Mae'r gyfraith etholiadol yn dechnegol a chymhleth ei natur. Ystyrir felly, mai doeth fyddai cael pwerau i ymateb i unrhyw anawsterau annisgwyl y deuir ar eu traws yn ymarferol o ganlyniad i newidiadau ehangach a wneir i'r etholfraint.

Byddai'r pŵer i wneud rheoliadau yn darparu diogelwch i wneud darpariaeth bellach yng ngoleuni unrhyw brofiadau ymarferol sy'n deillio o estyn yr etholfraint i'r categori hwn o bleidleiswyr.

RHEOLIADAU YN YMWNEUD Â:	Pŵer i wneud rheoliadau ynghylch datgelu gwybodaeth person ifanc mewn cysylltiad ag etholiadau i'r Senedd.
RHAN III O'R BIL	
ADRAN	25
DULL O DDWYN I RYM	Cadarnhaol
DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU	
Mae Adran 16 o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch datgelu gwybodaeth person ifanc mewn cysylltiad ag etholiadau i'r Senedd. Mae Adran 25(2) yn nodi rhestr anghynhwysfawr o'r math o ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn y rheoliadau ynghylch datgelu gwybodaeth person ifanc. Y diffiniad o 'gwybodaeth person ifanc' yn adran 23(2) yw unrhyw gofnod yn y gofrestr etholwyr llywodraeth leol, neu gofnod neu restr pleidleiswyr absennol sy'n ymwneud â phersonau o dan 16 oed.	
BETH FYDD Y RHEOLIADAU YN EI GYFLAWNI?	

Mae cyfyngiadau llym ar brosesu gwybodaeth am bobl ifanc (gweler adran 23) a dim ond yn unol ag adran 24 neu o dan reoliadau a wneir o dan adran 25 y gellir ei datgelu.

Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 25 yn galludogi Gweinidogion Cymru i bennu'r trefniadau ynghylch sut y gellir darparu a diogelu gwybodaeth etholwyr o dan 16 oed.

Yn benodol, mae hyn yn cynnwys darpariaeth ynghylch:

- y personau y caniateir rhoi'r wybodaeth iddynt;
- at ba ddibenion y caniateir rhoi'r wybodaeth;
- y cyfyngiadau sy'n gymwys i dderbynwyr y wybodaeth,
- y cyfyngiadau sy'n gymwys i'r personau sy'n llunio'r gofrestr lawn.

Mae adran 25 hefyd yn caniatáu i reoliadau greu troseddau diannod am ddatgelu gwybodaeth person ifanc mewn cysylltiad ag etholiadau i'r Senedd. Mae'r Bil yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gwneud rheoliadau, ymgynghori â phersonau o'r fath fel y bo'n briodol yn eu barn hwy. Bydd hyn yn sicrhau bod y rheoliadau ddim ond yn cael eu cyflwyno lle mae Gweinidogion Cymru yn fodlon eu bod yn angenrheidiol ac yn briodol o ran diogelu gwybodaeth pobl ifanc.

PAM MAE ANGEN Y RHEOLIADAU

Bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn darparu hyblygrwydd ac yn galluogi newidiadau i gael eu gwneud i'r rhestr o ddeddfiadau cyflenwi yn adran 25 o'r Bil neu i wneud darpariaeth ar wahân. Efallai y bydd angen diwygio'r rhain yn rheolaidd, ac mae'r Comisiwn Etholiadol eisoes wedi dweud bod is-ddeddfwriaeth yn well. Penderfynwyd peidio â phennu'r rheoliadau ar wyneb y Bil oherwydd bod angen cysylltu â'r gymuned etholiadol ynghylch datblygu manylion y rheoliadau.

Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn cynnwys y pŵer i greu troseddau i sicrhau y gellir cymhwyso'r drosedd a'r sanctsiwn yn adran 25 i ddarpariaeth arall a grëwyd gan ddefnyddio'r pŵer. Mae'r drosedd yn ymwneud â datgelu gwybodaeth heb ganiatâd lle mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol iddi gael ei diogelu.

BWRIAD POLISI'R RHEOLIADAU

Mater sensitif yw trin gwybodaeth pobl ifanc o dan 16, ac mae angen gwneud darpariaeth sy'n rhoi cyfyngiadau llym ar brosesu gwybodaeth sy'n ymwneud â phobl ifanc gan Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mae Adran 24 yn nodi sut y dylid diogelu gwybodaeth pobl ifanc yn gyffredinol.

Mae gan amryw fynediad at y gofrestr lywodraeth leol lawn o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Mae'r rhain yn cynnwys y Comisiwn Etholiadol ar gyfer rheolau rhoi, ac awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau statudol sy'n ymwneud â diogelwch, gorfodi'r gyfraith ac atal troseddau. Efallai bod gan rai o'r rhain fuddiant cyfreithlon mewn cael mynediad at wybodaeth am gyrhaeddwyr 14 a 15 oed, yn

ogystal â'r rhai 16 oed a throsodd, yn enwedig gan fod bwriad i hyn fod yn ostyngiad parhaol yn yr oedran pleidleisio.

Fodd bynnag, mae angen ystyried hyn yn ofalus ac ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol. Bydd y pŵer rheoleiddiol yn adran 16 yn cyd-fynd â'r trefniadau yn adran 15 a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu mewn rheoliadau ddibenion ychwanegol pryd y caniateir datgelu gwybodaeth am bobl ifanc. Bwriedir i'r pŵer i wneud rheoliadau fod yn eang er mwyn ystyried y personau a all dderbyn y wybodaeth ac at ba ddibenion y caniateir datgelu'r wybodaeth honno.

RHAN V: Amrywiol

GORCHYMYN YN Y CYFRIN GYNGOR SY'N YMWNEUD Â:	Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth am etholiadau
RHAN V O'R BIL	
ADRAN	36
DULL O DDWYN I RYM	Cadarnhaol
DISGRIFIAD O'R GORCHYMYN	
Mae adran 36 yn ei gwneud yn glir y caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau presennol o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i wneud darpariaeth sy'n rhoi effaith i newidiadau i'r gyfraith etholiadol a argymhellir gan Gomisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr i'r graddau y maent yn ymwneud ag etholiadau datganoledig. Efallai y bydd angen gwneud y rheoliadau hyn o ganlyniad i newidiadau i'r gyfraith etholiadol a argymhellir gan Gomisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr.	
BETH FYDD Y GORCHYMYN YN EI GYFLAWNI?	
Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â rhesymoli'r gyfraith etholiadol sy'n ymwneud ag etholiadau datganoledig.	
PAM MAE ANGEN Y GORCHYMYN	
Bydd egluro'r pŵer presennol i wneud Gorchymyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i resymoli'r gyfraith etholiadol yn dilyn unrhyw argymhellion a wneir gan Gomisiwn y Gyfraith, a bydd yn benodol yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau i'r gyfraith etholiadol sy'n ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol yn ogystal ag etholiadau'r Senedd.	
BWRIAD POLISI Y GORCHYMYN	

Comisiwn y Gyfraith yw'r corff annibynnol statudol a grëwyd gan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 i gadw cyfraith Cymru a Lloegr dan adolygiad ac i argymhell diwygio lle mae angen hynny. Nod y Comisiwn yw sicrhau bod y gyfraith yn deg, yn fodern, yn syml ac yn gosteffeithiol. Fel arfer ni fydd Comisiwn y Gyfraith yn ystyried materion sy'n fwy priodol i'r Llywodraeth (y DU neu Gymru) eu hystyried yn uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys materion dadleuol neu wleidyddol neu faterion polisi sefydledig y Llywodraeth.

Ym mis Rhagfyr 2014, lansiodd Comisiwn y Gyfraith ymgynghoriad ar y cynigion i ddiwygio'r gyfraith etholiadol. Cyhoeddodd adroddiad interim ym mis Chwefror 2016 yn amlinellu ei gynigion ar gyfer diwygio. Diben yr argymhellion interim a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith oedd symleiddio'r trefniadau gweinyddol ar gyfer etholiadau a, lle bo'n briodol, safoni'r trefniadau hynny ar draws pedair rhan y DU. Hyd yn hyn, nid yw Llywodraeth y DU wedi ymateb yn ffurfiol i'r adroddiad. Mae'r meysydd penodol a gwmpesir gan yr argymhellion manwl a gynigir gan Gomisiwn y Gyfraith yn cynnwys pwerau gweithredu swyddogion canlyniadau, dull pleidleisio, pleidleisio absennol, cyfrifon a materion pwysig eraill. Efallai y bydd y Cynulliad am ystyried, maes o law, a ddylid gweithredu'r argymhellion ar ddiwygio'r gyfraith etholiadol a gynigiwyd gan Gomisiwn y Gyfraith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yng Nghymru. Felly, mae'r Bil yn egluro pwerau presennol Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a byddai'n galluogi i'r gyfraith etholiadol, i'r graddau y mae'n ymwneud ag etholiadau datganoledig, gael ei rhesymoli o ganlyniad i argymhellion interim y Comisiwn neu ei argymhellion yn y dyfodol.



UK Government
Llywodraeth y DU


Rt Hon Alun Cairns MP
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr
London | Llundain
SW1A 2NP

1 Caspian Point | 1 Pwynt Caspian
Cardiff | Caerdydd
CF10 4DQ


www.gov.uk/wales
www.gov.uk/cymru

Ref: 83Sub19



Elin Jones AM
Llywydd
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

 **February 2019**



I am writing with regard to the Senedd and Elections (Wales) Bill which you intend to introduce into the Assembly shortly. I note in particular the amendments proposed to section 1(1) of the Government of Wales Act 2006 to change the name of the Assembly to Senedd Cymru. It was of course the Government's clear intention when devolving powers through the Wales Act 2017 that the Assembly should be able to decide for itself what it is to be called and I welcome the approach you have taken to engaging on this matter.

I note your intention to change the term "Assembly" to "Parliament", which is something I support. I am advised the Assembly does not have legislative competence under paragraph 7(2) of Schedule 7B to the Government of Wales Act 2006 to make this change. However, the Assembly plans to use its powers to make consequential or incidental provision set out in paragraph 7(4) of this Schedule.

In this case, I support the change on the basis it can be argued that it is incidental to the Assembly's change of name rather than consequential and would be grateful if you could confirm whether you share this view.

I trust that careful consideration will continue to be given to the use of such powers in future and their use on this occasion does not set a precedent in this regard.

I am copying this letter to the First Minister and to party leaders in the Assembly.

In daiffrent,

Alun

Rt Hon Alun Cairns MP
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

Y Gwir Anrh Alun Cairns AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Swyddfa Cymru
Gwydyr House
Whitehall
Llundain
SW1A 2NP

Eich cyf: 83Sub19
Ein cyf: PO602/EJ/TJ

12 Chwefror 2019

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol

Diolch am eich gohebiaeth ddiweddar ynglŷn â Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru).

Nodais â diddordeb eich sylwadau, sy'n amlinellu:

- y byddech yn cefnogi newid y term "Cynulliad" i "*Parliament*" yn Adran 1(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; ac
- eich bod o'r farn y gellid dadlau y byddai newid o'r fath yn gysylltiedig â newid enw'r Cynulliad.

Rwy'n ddiolchgar iawn am eich adborth cadarnhaol ar y mater hwn. Efallai y byddai o gymorth egluro dau bwynt yn eich gohebiaeth.

Rydych yn cyfeirio at gynnig i newid enw'r Cynulliad i "Senedd Cymru". Byddai Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), fel y'i cyflwynir, yn newid yr enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i "Senedd" nid "Senedd Cymru".

Hefyd, ni fydd y Bil (fel y'i cyflwynir) yn newid y term '*Assembly*' (lle mae'n ymddangos gyntaf yn Adran 1(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru) i '*Parliament*'. Yn hytrach, bydd y Bil yn darparu bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y mae Deddf Llywodraeth Cymru yn disgrifio'r sefydliad) yn cael ei alw'n Senedd, ac y gall y

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

National Assembly for Wales

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

Tudalen y pecyn 172

0300 200 7403



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

Senedd gael ei alw hefyd yn *Welsh Parliament*. Nodir y rhesymeg sy'n sail i'r drafftio hwn yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil.

Rwy'n rhagweld y bydd y mater o sut y dylid diwygio Adran 1(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn cael ei ystyried yn ystod y gwaith craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil hwn. Bydd eich cyfraniad yn helpu i lywio'r drafodaeth honno.

Nodais eich bod wedi anfon copi o'ch gohebiaeth at Brif Weinidog Cymru ac at arweinwyr pleidiau. Byddaf innau hefyd yn rhannu fy ymateb â hwy ac â Chadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, gan y bydd y Bil yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor hwnnw.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd



Ein cyf/Our ref: MA - L/CG/0176/19

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

13 Chwefror 2019

Annwyl Mick,

Ysgrifennaf atoch i rannu barn gychwynol Llywodraeth Cymru ar y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) er mwyn llywio trafodaethau'r Pwyllgor wrth iddo graffu yng Nghyfnod 1, a fydd yn ei dro yn llywio ystyriaethau'r Llywodraeth o ddiwygiadau posibl y gellid eu cyflwyno gennym yng Nghyfnod 2.

Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi gallu rhoi cymorth i'r Llywydd ddatblygu'r darpariaethau etholfraint yn y Bil, gan ystyried y cysylltiadau â'n deddfwriaeth ni ein hunain, sydd ar fin ymddangos, sy'n ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol. Rwy'n ddiolchgar hefyd o fod wedi cael y cyfle i drafod rhai o'r darpariaethau eraill yn y Bil gyda'r Llywydd wrth iddynt gael eu datblygu.

Fel y dywedais yn y Cyfarfod Llawn fel ymateb i ddatganiad y Llywydd, mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol iawn i brif nodau'r Bil fel yr ydym ni yn eu gweld nhw: i ailenwi'r sefydliad er mwyn adlewyrchu ei statws, i estyn yr etholfraint, ac i roi mwy o eglurder ynghylch y rheolau ynglŷn ag anghymhwysio. Mae ein harsylwadau penodol ar ddarpariaethau'r Bil i'w gweld isod.

Rhan 2 – Enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'r Bil yn darparu bod y Cynulliad yn cael ei ailenwi drwy ddwy wahanol ddarpariaeth mewn termau tebyg, un ohonynt yw diwygio a1(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel ei bod yn dweud:

“(1) There is to be an Assembly for Wales to be known as the Senedd.
(1A) The Senedd may also be known as the Welsh Parliament”.

Mae gan Lywodraeth Cymru bryderon y gallai'r newid hwn ychwanegu at y penbleth sy'n bodoli eisoes ynghylch enwau ein sefydliadau, yn hytrach na lleihau'r penbleth hwnnw. Mae hyn yn hynod bwysig gan ystyried bod y diwygiadau a gynigir yn rhai i'n statud cyfansoddiadol allweddol. Rydym hefyd yn poeni y gallai defnyddio "Senedd" ar ei ben ei hun heb unrhyw awgrym arall o'i gysylltiad tiriogaethol â Chymru arwain at faterion hygyrchedd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCGBM@gov.wales / YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 174
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddai'n well gennym ddiwygio a1(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn osgoi unrhyw berygl o benbleth, fel hyn:

“(1) There is to be a parliament for Wales to be known as [x].”

Rydym yn cydnabod mai mater i'r Cynulliad cyfan benderfynu yn ei gylch yw enw ein senedd, ond rydym hefyd yn ystyried y byddai'n fanteisiol dewis "Senedd Cymru" a "Welsh Parliament" cyn "Senedd" oherwydd byddent yn ymateb i'n ail bryder ynglŷn â'r cysylltiad tiriogaethol, fel y gwna Senedd yr Alban a Dáil Éireann.

Rhan 3 – Etholiadau

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl gefnogol i'r cynnig i estyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed. Ein safbwynt polisi yw y dylai'r etholfraint ar gyfer etholiadau'r Cynulliad fod yn gyson â'r hyn yr ydym yn bwriadu ei estyn ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. I'r perwyl hwn, hoffem weld y Bil hwn yn cynnwys gwladolion tramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru yn cael eu cynnwys yr etholfraint.

Rydym yn gweithio gyda Chomisiwn y Cynulliad i ystyried pa drefniadau fydd eu hangen i sicrhau bod yr etholfraint ar gyfer etholiadau datganoledig yn cael ei hestyn yn llwyddiannus. Bydd y rhain yn cynnwys deunyddiau ymchwil, cyfathrebu ac addysgol. Rydym yn rhagweld y bydd angen sefydlu Bwrdd Allanol Llywodraeth Cymru o gynghorwyr i helpu gyda'r gwaith hwn, a bydd y Comisiwn yn bartneriaid allweddol i'n helpu i siapio'r gwaith.

Bydd rhaid meddwl yn ofalus am sut i drosglwyddo'r neges yn yr ymgyrchoedd cyfathrebu ac addysg er mwyn achosi cyn lleied o benbleth â phosibl i'r etholaeth os bydd yr etholfraint ar gyfer etholiadau'r Cynulliad a llywodraeth leol yn ymwahanu.

At hynny, rydym yn cefnogi'r egwyddor o roi'r bleidlais i garcharorion ac edrychwn ymlaen at dderbyn adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol er mwyn ein helpu wrth inni ystyried hyn.

Gan fod gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig erbyn hyn, mae angen gosod ei berthynas gyllido ac atebolrwydd gyda'r Comisiwn Etholiadol ar sylfaen ffurfiol. Rydym yn barod i weithio gyda'r Llywydd fel yr Aelod Cyfrifol, y Comisiwn Etholiadol a Thrysorlys EM, yng ngoleuni craffu Cyfnod 1, i ystyried a fyddai modd cyflwyno diwygiadau i gyflawni hyn. Byddai'r diwygiadau hyn yn drech na'r ddyletswydd bresennol a gynigir yn y Bil i ystyried diwygio'r modd y goruchwylir gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig Cymreig, ac yn ei disodli.

Rhan 4 – Anghymhwysu

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r bwriad polisi yn llawn i roi eglurder ynghylch y personau/swyddi sydd wedi'u hanghymhwysu rhag aelodaeth, ac sydd wedi anghymhwysu rhag sefyll fel ymgeisydd. Er mwyn bod yn gwbl fodlon bod y darpariaethau hyn yn cael gwared ar gymhlethdod i'r graddau eithaf posibl, a bod yn esmwyth â sail resymegol y polisi ar gyfer newid cymhwysra o'r hyn a geir yn y gyfraith bresennol mewn unrhyw ffordd, rydym yn eu dadansoddi'n fanwl. Byddwn yn croesawu barn y Pwyllgor am y materion hyn, yn arbennig o ystyried ei waith, a'r gwaith a wnaed cyn hyn gan ei ragflaenydd, yn y maes hwn.

Rhan 5 – Amrywiol

Rydym yn nodi mai materion mewnol ar gyfer Comisiwn y Cynulliad a'r Cynulliad yn hytrach na Llywodraeth Cymru yw'r rhan fwyaf o'r darpariaethau.

Fodd bynnag, mae'r Bil yn y Rhan hon yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru weithredu argymhellion ar gyfer diwygio cyfraith etholiadol a wneir gan Gomisiwn y Gyfraith

Nid ydym o'r farn ei bod yn briodol i barhau ymhellach ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith, na chreu disgwyliad amdanynt, fel hyn, ac mae gennym bryderon ynghylch y ffordd y drafftwyd y darpariaethau presennol o safbwynt y modd y byddant yn rhyngweithio â phwerau sy'n bodoli eisoes a phwerau sy'n ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol.

Yn hytrach, rydym yn ystyried, yn gyffredinol, y dylid cyflwyno argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio cyfraith etholiadol neu unrhyw gyfraith, os cefnogir y rhain gan Lywodraeth Cymru, gan ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol o dan weithdrefnau wedi'u cyflymu. Mae tipyn o waith wedi'i wneud erbyn hyn ar ddatblygu gweithdrefn wedi'i chyflymu, hyblyg ar gyfer cydgrynhoi Biliau. Hoffem ymchwilio maes o law i broses wedi'i chyflymu debyg ar gyfer biliau diwygio'r gyfraith sy'n mynd ymhellach na chydgrynhoi, fel yr argymhellwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ei hun yn ei adroddiad ar ffurf a hygyrchedd y gyfraith.

Gobeithiaf fod y myfyrdodau hyn yn ddefnyddiol. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, fel yr Aelod Cyfrifol, ac at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyd ar y Bil hwn yn ystod ei hynt drwy'r Cynulliad.

Yn gywir



Jeremy Miles AC

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister



Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 Chwefror 2019

Annwyl Mick

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Chwefror ynglŷn â Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019.

Roedd gwallau yn y datganiad ysgrifenedig o dan RhS30C, yr hoffwn ymddiheuro amdanynt. Gwall gweinyddol oedd hwn lle dim ond y testun yn ymwneud â chydarddoldeb a gafodd ei gynnwys. Gosodwyd y datganiad ysgrifenedig diwygiedig ychydig o ddiwrnodau wedi i'r gwall ddod i'r amlwg. Gallaf gadarnhau mai'r fersiwn a osodwyd ar 25 Ionawr yw fersiwn gyflawn datganiad ysgrifenedig RhS30C.

Gofynnodd hefyd am eglurhad pa swyddogaethau sy'n cael eu heffeithio gan yr OS hwn, a sut y byddant yn cael eu harfer a pha un a ydynt yn swyddogaethau newydd. Nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw swyddogaethau o dan y ddeddfwriaeth gaffael bresennol ac felly nid yw pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru yn cael eu heffeithio gan yr offeryn hwn. O ran natur y swyddogaethau sy'n cael eu creu gan yr offeryn hwn, roeddwn i'n meddwl y byddai'n well imi ateb drwy egluro pob un o'r swyddogaethau isod. Mae'r cyfeiriadau at "reoliadau" yn cyfeirio at reoliadau yn yr OS.

Mae'r swyddogaethau a ganlyn wedi'u trosglwyddo i'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet lle y bo angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ymlaen llaw mewn perthynas ag awdurdodau datganoledig Cymreig fel y'u diffinnir yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 - gweler rheoliadau 5(56), 7(31) a 9(63) ar gyfer y darpariaethau llawn mewn perthynas â chydysynio:-

- (i) Diwygio dulliau cyfathrebu electronig yn y broses gyflwyno - rheoliadau 5(19) Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a 9(27) Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- (ii) Diwygio'r rhestr o fanylion a nodweddion technegol y mae'n rhaid i offer a dyfeisiau ar gyfer derbyn dogfennau yn electronig feddu arnynt - rheoliadau 5(19) (Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015) a 9(27) (Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016).
- (iii) Diweddarau'r rhestr o gytuniadau rhyngwladol sy'n cael eu cadarnhau gan Lywodraeth y DU - rheoliadau 5(37) (Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015), 7(21) (Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016 a 9(45) (Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016).

Mae'r swyddogaethau a ganlyn wedi cael eu trosglwyddo i'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet a Gweinidogion Cymru i'w harfer yn gydamserol:

- (i) Gofyn am adroddiadau o dan reoliad 31(16) o Reoliadau Contractau Consesiwn 2016 – i'w harfer yn gydamserol â Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag awdurdodau datganoledig Cymreig - rheoliad 7(17).
- (ii) Gofyn am adroddiadau o dan reoliad 99 o Reoliadau Contractau Cyfleustodau 2006 – i'w harfer yn gydamserol â Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag awdurdodau datganoledig Cymreig - rheoliad 9(58).

Mae'r swyddogaethau a ganlyn wedi cael eu trosglwyddo i Swyddfa'r Cabinet, a rhai ohonynt yn cael eu harfer yn gydamserol â Gweinidogion Cymru (fel y nodir)

- (i) System e-hysbysu y DU a fydd yn disodli Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd o ran yr hysbysiadau sydd angen eu cyflwyno. Mae hyn yn gymwys i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016 a Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016.
- (ii) Gofyn am adroddiadau o dan reoliad 32 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 – i'w harfer yn gydamserol â Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag awdurdodau datganoledig Cymreig - rheoliad 5(27).
- (iii) Gofyn am adroddiadau o dan reoliad 84 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 – i'w harfer yn gydamserol â Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag awdurdodau datganoledig Cymreig - rheoliad 5(55).

Mae'r swyddogaethau a ganlyn wedi cael eu trosglwyddo i'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet.

- (i) Diwygio trothwyon sydd wedi'u cyfyngu i sicrhau cydymffurfio â'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau - mae'r DU yn gwneud cais i gael bod yn aelod ohono. Mae hyn yn gymwys i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016 a Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016.
- (ii) Adolygu'r codau Geirfa Caffael Gyffredin - rheoliad 16.
- (iii) Gofyn am adroddiadau o dan reoliad 8(3) o Reoliadau Contractau Cyfleustodau 2006 - rheoliad 12(f).
- (iv) Diwygio'r rhestr o arfau a deunyddiau rhyfel a fabwysiedir gan Gyngor y Gymuned Economaidd Ewropeaidd yn ei benderfyniad 255/58 dyddiedig 15 Ebrill 1958 – rheoliadau 5(3) (Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015), 7(4) (Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016) a 9(3) (Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016).

- (v) Gofyn am wybodaeth benodol mewn perthynas â chontractau a ddyfarnwyd gan gyfleustodau mewn perthynas â Gogledd Iwerddon – rheoliad 9(21)

O ran Memoranda Cydsyniad Offerynnau Statudol, mae'r trefniadau newydd a roddir ar waith drwy'r Offeryn Statudol hwn yn cael eu gwneud mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth y DU yn bennaf. Mae'n ofynnol yn unol â RhS30A bod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn cael ei osod mewn perthynas ag unrhyw Offeryn Statudol a osodir gerbron Senedd y DU gan Weinidogion y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Yr unig newidiadau a wneir i ddeddfwriaeth sylfaenol y DU yw'r newidiadau i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 a Deddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999. Mae Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol wedi cael ei osod mewn perthynas â'r newidiadau a wnaed i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gan fod hon yn ddeddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Nid oes angen Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer y diwygiadau i'r ddwy Ddeddf arall gan nad yw'r Deddfau hyn o fewn cymhwysedd datganoledig y Cynulliad.

Er mwyn darparu ymateb cyflawn, ac fel y dywedwyd yn ein llythyrau blaenorol, mae swyddogion Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â Swyddfa Cymru am y cyfyngiadau anfwriadol ar gymhwysedd y Cynulliad sydd wedi'u creu gan bwerau a roddwyd mewn OSau sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE ac mewn deddfwriaeth arall sy'n rhoi effaith i baragraffau 8, 10 ac 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru. Mae swyddogion yn edrych ar y mater yn fanwl ac yn ystyried sut orau i'w ddatrys. Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, am hynt y trafodaethau hynny.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Rebecca Evans AM
Minister for Finance and Trefnydd
Welsh Government

6 February 2019

Dear Rebecca

The Public Procurement (Amendment Etc.) (EU Exit) Regulations 2019

The Constitutional and Legislative Affairs Committee considered the Welsh Government written statement issued under Standing Order 30C for the above named regulations at its meeting on 4 February 2019.

I would like to draw your attention to concerns we have with the written statement(s).

The Welsh Government laid a written statement under Standing Order 30C in respect of these Regulations on 18 December 2018. A Statutory Instrument Consent Memorandum, under Standing Order 30A, was also laid. The Committee considered the Statutory Instrument Consent Memorandum and written statement at its meeting on 14 January 2019.

We now note that the Welsh Government has laid this further written statement in respect of the same Regulations. We would be grateful to receive clarification as to when and why the original statement was withdrawn, and why a second statement was not then laid until 25 January 2019.

I would also like to draw your attention to a number of concerns we have with the Regulations.

The written statement lists the legislation being amended by the Regulations, but it does not identify which legislative powers of the National Assembly or executive powers of the Welsh Ministers are affected by this instrument. The written statement says that the Regulations enable functions to be exercised by the Cabinet Office in relation to Devolved Welsh Authorities, either with the



consent of the Welsh Ministers or exercised concurrently with the Welsh Ministers. However, the written statement does not say whether this relates to all functions, whether the Regulations restate existing arrangements, or whether these represent new arrangements in terms of how functions are exercised in relation to devolved Welsh Authorities. We would be grateful for clarification on this matter.

In addition, the written statement correctly identifies implications for the National Assembly's competence in the future, at which point Minister of the Crown consent will be needed under Schedule 7B of the Government of Wales Act 2006 to make any changes in these areas. However, if these are new arrangements it is unclear why the Welsh Government did not lay a Statutory Instrument Consent Memorandum as it did, in December 2018, in relation to changes that these Regulations make to the Equality Act 2010.

I would be grateful for a response and clarification on the matters raised above by 14 February 2019.

Yours sincerely



Mick Antoniw
Chair

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoni AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 Chwefror 2019

Annwyl Mick,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Chwefror ynghylch Rheoliadau Mewnforio a Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019").

Mae Rheoliadau 2019 yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru, yn lle'r Comisiwn Ewropeaidd, i arfer swyddogaethau gweinyddol mewn perthynas â Chymru ar yr un pryd fel y caiff Gweinidogion Cymru arfer eu pwerau mewn perthynas â Chymru. Mae'r swyddogaethau gweinyddol hyn yn cynnwys, yn fras, lunio rhestri o drydydd gwledydd at ddibenion masnach rhwng yr Undeb Ewropeaidd a thrydydd gwledydd mewn anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid a mewnforio a symud anifeiliaid a chynhyrchion o'r fath i mewn i'r Undeb Ewropeaidd a thrwyddi, prosesau sy'n gysylltiedig â mewnforio ac allforio anifeiliaid byw i mewn ac allan o'r UE a gaiff eu hwyluso drwy archwiliadau ar ffiniau a phrosesau sy'n gysylltiedig â rheoli argyfyngau a chlefydau anifeiliaid.

Yn ogystal, mae dau offeryn gan yr UE (sy'n gysylltiedig â symud anifeiliaid anwes yn anfansachol a mewnforio anifeiliaid a chynhyrchion dyframaethu) y caiff swyddogaethau deddfwriaethol eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn eu cylch ar yr un pryd â'r cydsyniad sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru fel y gall yr Ysgrifennydd Gwladol arfer y pwerau mewn perthynas â Chymru.

Yr effaith ar gymhwysedd gweithredol

Bydd Rheoliadau 2019 yn estyn pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru. Byddant yn trosglwyddo pwerau presennol y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys swyddogaethau llunio rheoliadau sy'n gysylltiedig â symud anifeiliaid anwes yn anfansachol a mewnforio anifeiliaid a chynhyrchion dyframaethu, i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 182
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid oes unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad

O safbwynt cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, gallai swyddogaethau gweinyddol a deddfwriaethol sydd wedi'u trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w harfer ar yr un pryd drwy gydsyniad gan Weinidogion Cymru gael eu trin fel swyddogaethau Gweinidog y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n bosibl, felly, fod hynny'n ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â Swyddfa Cymru ynghylch cyfyngiadau anfwriadol ar gymhwysedd y Cynulliad sydd wedi'u creu gan bwerau a roddwyd gan Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE a deddfwriaeth arall, sy'n rhoi effaith i baragraffau 8, 10 ac 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru. Mae swyddogion yn edrych ar y broblem yn fanwl ac yn ystyried y ffordd orau i'w datrys. Bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Cynlluniad Cenedlaethol, gan gynnwys y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, am hynt y trafodaethau hyn.

Gobeithiaf y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



Rebecca Evans AC/AM

Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Rebecca Evans AC
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Llywodraeth Cymru

6 Chwefror 2019

Annwyl Rebecca

**Rheoliadau Mewnforio a Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid
(Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019**

Trafododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ddatganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd o dan Reol Sefydlog 30C ar gyfer y rheoliadau a enwir uchod, yn ei gyfarfod ar 5 Chwefror 2019.

Hoffwn dynnu eich sylw at bryderon sydd gennym ynghylch y Rheoliadau hyn.

Mae'r datganiad ysgrifenedig yn cadarnhau bod y diwygiadau yn y Rheoliadau hyn i gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â deddfwriaeth y DU neu Brydain Fawr y mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau gweithredol mewn perthynas â hi a bod maes pwnc y deddfwriaeth, sef symud anifeiliaid a mesurau iechyd ataliol sy'n ymwneud â symud anifeiliaid, mewn cysylltiad â Chymru o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Fodd bynnag, nid yw'r datganiad yn nodi'r effaith y gallai'r Rheoliadau hyn ei chael, naill ai ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru nac ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 30C.3(ii).

Gofynnwn i chi roi eglurhad ynghylch pa bwerau datganoledig y mae'r Rheoliadau yn effeithio arnynt.

Hoffwn dynnu eich sylw hefyd at fân faterion eraill gyda'r datganiad ysgrifenedig.

Mae'r Rheoliadau, yn Atodlen 2, yn dirymu "Commission Decision 2006/65/EC on certain protection measures in relation to intra-Community trade in poultry



intended for restocking of wild game supplies". Mae'n ymddangos bod gwall yng nghyfeirnod Penderfyniad y Comisiwn fel y'i nodir, ac y dylai ddarllen "2006/605/EC".

Hefyd, mae'r datganiad ysgrifenedig yn cyfeirio at y cyfeirnod anghywir yn ei restr o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n cael ei dirymu, ond mae hefyd yn cynnwys cyfeiriad dyblyg at y Penderfyniad y Comisiwn hwn (gyda'r cyfeirnod cywir) yn yr adran o'r enw "Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwys".

Byddwn yn ddiolchgar i gael ymateb ac eglurhad ynghylch pa bwerau datganoledig y mae'r Rheoliadau yn effeithio arnynt erbyn 14 Chwefror 2019.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

Yn gywir



Mick Antoniw
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon